# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Richard Parry Jones, MA.
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PWYLLGOR ARCHWILIO** | **AUDIT COMMITTEE** |
| **DYDD LLUN, 23 CHWEFROR 2015 am 2.00 o'r gloch y prynhawn** | **MONDAY, 23 FEBRUARY, 2015 at 2:00 p.m.** |
| **YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI** | **COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI** |
| **Swyddog Pwyllgor** — **Ann Holmes 01248 752518** | **Committee Officer** |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**Annibynnol / Independent**

Jim Evans, Dafydd Rhys Thomas a Richard Owain Jones

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

T Ll Hughes (Cadeirydd/Chair), John Griffith (Is-Gadeirydd/Vice-Chair) a Alun W Mummery

**Grwp Chwyldroad/Revolutionist Group**

Sedd Wag/Vacant Seat

**Heb Ymaelodi/Unaffiliated**

R Ll Jones

**ALEODAU LLEYG / LAY MEMBERS**

Mrs Sharon Warnes a Mr Richard Barker

**R H A G L E N**

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION CYFARFOD 10 RHAGFYR, 2014** (Tudalennau 1 - 10)

Cyflwyno cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar y dyddiadau a nodir isod:

- 10 Rhagfyr, 2014
- 9 Chwefror, 2015 (arbennig)

3 **CRONFA BENSIWN GWYNEDD**

Derbyn diweddariad gan yr Aelod Portffolio Cyllid ar Gronfa Bensiwn Gwynedd.

4 **RHEOLI TRYSORLYS CHWARTER 3 2014/15** (Tudalennau 11 - 20)

Cyflwyno adroddiad monitro Chwarter 3.

5 **ARCHWILIO ALLANOL**

- Derbyn diweddariad ar lafar ynghylch y Rhaglen Waith Berfformiad.

- Derbyn diweddariad ar lafar ynghylch y gwaith ardystio grantiau.

6 **ADRODDIAD GWAITH ARCHWILIO MEWNOL** (Tudalennau 21 - 36)

Cyflwyno adroddiad gan y Rheolwr Archwilio Mewnol ar waith yr Adain Archwilio Menwol yn y cyfnod o 1 Ebrill, 2014 i 31 Rhagfyr, 2014.

7 **DADANSODDIAD ANGHENION BLYNYDDOL A CHYNLLUN GWEITHREDOL ARCHWILIO MEWNOL 2015/16** (Tudalennau 37 - 46)

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Archwilio Mewnol.

8 **GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 47 - 48)

Ystyried mabwysiadu'r canlynol:-

"O dan Adran 100 (A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gall olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A o'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd amgaeëdig.

9 **CYTUNDEB GWASANAETH RHEOLI ARCHWILIO MEWNOL**

Cyflwyno diweddariad ar lafar gan y Pennaeth Gwasanaeth Adnoddau a Swyddog Adran 151 Dros Dro.

# PWYLLGOR ARCHWILIO

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr 2014

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd John Griffith (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Jim Evans, Alun Mummery, R. Llewelyn Jones<br><br>Aelodau Lleyg: Mr Richard Barker, Mrs Sharon Warnes |
| **WRTH LAW**: | Dirprwy Brif Weithredwr<br>Pennaeth Adnoddau a Swyddog Adran 151 Dros Dro<br>Rheolydd Archwilio Mewnol (JF)<br>Rheolydd Dros Dro ar gyfer Gwasanaethau Cyfrifeg (BHO)<br>Rheolydd Risg ac Yswiriant (JJ) (ar gyfer eitem 4)<br>Cydlynydd Grantiau (JW) (ar gyfer eitem 3)<br>Cyfrifydd Cyfalaf a Rheoli Trysorlys (GR) (ar gyfer eitem 2)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorwyr Jeff Evans, Richard Owain Jones, Dafydd Rhys Thomas<br>H. Eifion Jones (Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid) |
| **HEFYD YN BRESENNOL**: | Andy Bruce (Swyddfa Archwilio Cymru), Lynn Pamment (PwC), Joe Hargreaves (PwC), Ian Hughes (Cymunedau'n Gyntaf Cyf.) |

---

**1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**2 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 7 Tachwedd 2014 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

Yn codi o'r cofnodion –

- Adroddodd y Cyfrifydd Cyfalaf a Rheoli Trysorlys yn ôl i'r Pwyllgor fel y gofynnwyd iddo wneud gyda gwybodaeth mewn perthynas â'r cyfraddau benthyca cyfartalog ar draws awdurdodau yng Nghymru. Roedd wedi trefnu'r wybodaeth ar ffurf tabl a threfn restrol yn seiliedig ar ddata a gafwyd o wefan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (BBGC). Er y gall meincnodi yn erbyn awdurdodau eraill fod yn ddefnyddiol, esboniodd y Swyddog ei bod yn bwysig pwysleisio hefyd fod amseriad y benthyca hanesyddol yn dibynnu ar pryd yr oedd y rhaglen gyfalaf angen benthyca er mwyn cyllido'r cynlluniau ynddi. Am y rheswm hwn, efallai bod rhai awdurdodau wedi bod angen cyllid allanol i gyllido'r rhaglen ar adeg pan oedd cyfraddau llog yn isel tra bod eraill wedi gorfod benthyca i gyllido rhaglenni pan oedd cyfraddau'n uchel. Yn ogystal, gall y dull hwn o weithredu hefyd gymylu'r darlun yn yr ystyr bod perfformiad awdurdod yn seiliedig ar gyfraddau llog ar fenthyciadau a all dyddio'n ôl ddegawdau ac na ellir eu haildrefnu oherwydd y premiymau a godir am wneud hynny a fyddai'n gorbwyso'r arbedion.

  Dywedodd y Swyddog mai'r Gyfradd Sefydlog Gyfartalog ar gyfer benthyciadau gan y BBGC ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru oedd 5.58% sy'n golygu bod ffigyrau Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM), sef 5.72%, ychydig yn uwch na'r cyfartaledd trwy Gymru. Trwy restru'r awdurdodau yn ôl maint y gyfradd sefydlog ar gyfer benthyciadau gan BBGC, Ynys Môn oedd y pedwerydd ar ddeg isaf allan o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru o ran cyfraddau llog sefydlog. Trwy restru'r awdurdodau yn ôl y maint cyfraddau llog sefydlog ar gyfer benthyciadau BBGC ar sail ranbarthol, roedd y gyfradd llog sefydlog ar gyfer CSYM y drydedd isaf o'r chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru.
  Nodwyd y wybodaeth gan y Pwyllgor.

- Cadarnhaodd y Rheolydd Archwilio Mewnol ei fod wedi cysylltu â Chronfa Bensiwn Gwynedd i sefydlu a fyddai swyddog o'r Gronfa yn medru dod i'r cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Archwilio i ddiweddaru'r Aelodau ar unrhyw faterion perfformiad. Er nad oedd modd iddo ddod i'r cyfarfod, roedd wedi cynnig opsiynau eraill, sef bod Aelodau'r Pwyllgor yn gofyn am atborth gan yr Aelod Etholedig sy'n cynrychioli Cyngor Sir Ynys Môn (yr Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid) ar y Pwyllgor Cronfa Bensiwn, neu eu bod yn anfon unrhyw gwestiynau yn uniongyrchol at Reolwyr y Gronfa.

  Dywedodd y Pennaeth Adnoddau a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro mai'r drefn arferol bob blwyddyn yw i'r awdurdod pensiwn gynnal cyfarfod gyda Swyddogion Adran 151 yr awdurdodau hynny sy'n rhan o'r Gronfa, a hynny er mwyn rhoi sylw i unrhyw faterion sy'n ymwneud â pherfformiad, buddsoddiad a / neu ddiffygion ac ati. Er nad oedd wedi cael gwybod pa bryd y byddai'r cyfarfod hwnnw'n cael ei gynnal, roedd yn rhagdybio y byddai'r nesaf ym mis Mawrth y flwyddyn nesaf os oedd yr un diwethaf wedi ei gynnal ym Mawrth 2014. Cadarnhaodd y byddai'n fodlon adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y dyddiad cyntaf sydd ar gael ar ôl y cyfarfod a gallai'r Pwyllgor wedyn fynd ar drywydd unrhyw faterion a all godi gyda Gwynedd os oedd angen.

  Roedd y Pwyllgor yn credu ei bod yn bwysig iddo gael diweddariad ar y Gronfa Bensiwn oherwydd bod materion perfformiad wedi eu hamlygu yn y cyflwyniad a gafwyd ym mis Medi 2013 ac oherwydd bod y diffyg yn y Gronfa Bensiwn yn cael effaith ar Fantolen yr Awdurdod. Cynigiwyd a derbyniwyd y dylid gofyn i'r Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid friffio'r Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod nesaf mewn perthynas â'r Gronfa Bensiwn ac unrhyw fater arall a all fod wedi codi mewn cyfarfodydd o'r Pwyllgor Cronfa Bensiwn.

  Dywedodd Mrs Sharon Warnes wrth y Pwyllgor ei bod wedi bod mewn cyfarfod o Bwyllgor Archwilio Cyngor Gwynedd ym mis Medi i weld sut roedd yr Aelodau Lleyg yn cymryd rhan ynddo, a bod y Gronfa Bensiwn wedi'i thrafod yno fel rhan o'r drefn ar gyfer cyflwyno'r cyfrifon a dywedwyd yno fod perfformiad y Gronfa wedi gwella. Soniwyd am y posibilrwydd hefyd o sefydlu pwyllgor a fyddai'n cynnwys cynrychiolwyr o bob un o'r partneriaid o fewn y Gronfa Bensiwn i gadw llygad ar y Gronfa. Awgrymodd efallai y byddai'n werth holi a oedd y fforwm hwnnw wedi ei sefydlu erbyn hyn a'i oblygiadau.

  Nododd y Pwyllgor y diweddariad a gafwyd gan y Rheolydd Archwilio Mewnol ynghyd â'r wybodaeth ychwanegol gan Mrs Sharon Warnes.

  **CAMAU GWEITHREDU YN CODI:**

- **Bod y Rheolydd Archwilio Mewnol yn gofyn i'r Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid friffio'r Pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf ar y Gronfa Bensiwn ac unrhyw faterion cysylltiedig.**
- **Bod y Pennaeth Adnoddau a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro yn adrodd yn ôl ar unrhyw faterion o bwys a gododd yn y cyfarfod rhwng Swyddogion Adran 151 yr awdurdodau a oedd yn rhan o'r Gronfa Bensiwn.**

## 3 ADRODDIAD GWAITH A CHYFRIFON 2013-14 - CYMUNEDAU'N GYNTAF MÔN

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor adroddiad gan y Cydlynydd Grantiau yn ymgorffori cyfrifon Cymunedau'n Gyntaf Môn Cyf ar gyfer 2013/14 ynghyd â dadansoddiad o gyllid grant y corff ar gyfer 2013/14 a'i gyllideb ar gyfer 2014/15.

Dywedodd y Cydlynydd Grantiau bod raid i Cymunedau'n Gyntaf Môn Cyf gyflwyno ei gyfrifon blynyddol i'r Pwyllgor Archwilio yn unol â thelerau'r cytundeb cyfreithiol gyda'r Awdurdod ar gyfer cyflawni'r rhaglen. Mae'r cyfrifon ar gyfer 2013/14 wedi eu harchwilio gan Williams Denton fel yr archwilwyr a benodwyd gan y cwmni ac maent wedi tystio i gywirdeb y cyfrifon ac wedi nodi nad oes unrhyw faterion i adrodd arnynt.

Holodd Aelod o'r Pwyllgor ynglŷn â'r cynnydd a wnaed gyda sefydlu academi a gyflwynwyd yn y lle cyntaf fel syniad i roi sylw i anghenion pobl ifanc sydd wedi'u dadrithio a gofynnodd a oedd y gwaith cydweithredol hwnnw wedi datblygu ac, os oedd, a fyddai modd ei gyflwyno fel arfer dda mewn rhannau eraill o Fôn. Cadarnhaodd y Cydlynydd Grantiau bod y cysyniad o academi wedi esblygu'n sylweddol dros y chwe mis diwethaf a bod Cymunedau'n Gyntaf Cyf wedi gweithio'n



DRAFT

agos gydag Ysgol Uwchradd Caergybi gyda'r canlyniad bod yr academi yn opsiwn yn awr ar gyfer disgyblion sydd mewn perygl o gael eu gwahardd. Dywedodd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio y byddai'n dymuno cynnal gweithdy arferion gorau gyda staff Cymunedau'n Gyntaf fel bod modd iddynt weld yr arfer orau sy'n digwydd gyda golwg ar gyflwyno arfer o'r fath mewn ardaloedd eraill.

Nodwyd y wybodaeth gan y Pwyllgor ac ystyriodd y byddai'n fuddiol iddo gael ei friffio ar elfennau o'r rhaglen Cymunedau'n Gyntaf heblaw'r cyfrifon. Cadarnhaodd Aelod fod gwahoddiad wedi ei estyn mewn cyflwyniad i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaethau ac Adfywio ym mis Medi i bob Aelod ymweld â Chymunedau'n Gyntaf yng Nghaergybi i weld y gwaith drostynt eu hunain. Dywedodd y Cydlynydd Grantiau hefyd y byddai ymweliad dilynol hefyd yn cael ei gynnal yn y Flwyddyn Newydd ar amser i'w drefnu.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a chyfrifon Cymunedau'n Gyntaf Cyf ar gyfer 2013/14 fel y cawsant eu cyflwyno.**

**DIM CAM GWEITHREDU PELLACH YN CODI**

## 4 RHEOLI RISG

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor adroddiad gan y Rheolydd Risg ac Yswiriant ar ganlyniad a chasgliadau adolygiad o bolisïau, gweithdrefnau ac arferion rheoli risg o fewn yr Awdurdod a gynhaliwyd gan Caerus Consulting. Roedd casgliadau'r adolygiad wedi eu cynnwys yn llawn dan Atodiad 1 i'r adroddiad ac wedi eu cylchredeg i'r UDA, y Penaethiaid a'r Pwyllgor Gwaith hefyd.

Adroddodd y Rheolydd Risg ac Yswiriant ar y prif ddiffygion a nodwyd yn yr adolygiad mewn perthynas â gweithredu trefniadau rheoli risg yn anghyson ar draws y Cyngor; diffyg cydberthynas rhwng risgiau corfforaethol a risgiau gwasanaeth; diffyg aliniad rhwng rheoli risg a phrosesau eraill; dim digon o sylw i risg o fewn partneriaethau a threfniadau cydweithio ynghyd â diffyg dealltwriaeth o swyddogaethau a chyfrifoldebau mewn perthynas â risg. Cyfeiriodd y Swyddog at y cynllun gweithredu ôl-adolygiad ar ffurf egluro swyddogaethau sgriwtini ac archwilio mewn perthynas â materion risg; ymgynghori ar ddogfennau a chanllawiau reoli risg newydd a darparu hyfforddiant ar faterion rheoli risg.

Rhoddodd y Pwyllgor sylw i'r wybodaeth a gwnaed y pwyntiau a ganlyn:

- Cydnabuwyd bod gwreiddio arferion rheoli risg yn llwyddiannus ledled y Cyngor wedi bod yn fater yr oedd y Pwyllgor hwn yn awyddus i'w ddatrys ers cryn amser a'i fod yn hanfodol bwysig ar gyfer cynnal busnes y Cyngor mewn modd effeithiol yn yr ystyr bod raid i bob penderfyniad gymryd risg i ystyriaeth. Awgrymwyd nad oedd proffil rheoli risg o fewn y Cyngor yn ddigon uchel.
- Gofynnwyd pa bryd mae'r Rheolwyr yn ystyried y byddant yn gallu adrodd yn ôl i'r Pwyllgor eu bod yn fodlon gyda statws a gweithrediad trefniadau rheoli risg o fewn yr Awdurdod. Ymatebodd y Swyddog mai'r nod yw llunio a sefydlu cofrestr risg sylweddol erbyn Mawrth 2015 a gofynnodd y Pwyllgor am y diweddariad bryd hynny.
- Canlyniad trafodaethau ynghylch rhannu cyfrifoldebau risg rhwng y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Archwilio. Er mwyn osgoi dyblygu dywedodd y Rheolydd Risg ac Yswiriant y bwriedir i'r Pwyllgor Archwilio ganolbwyntio ar y gofrestr a'r system risg ac i'r Pwyllgor Sgriwtini edrych ar risgiau unigol.
- Yr angen i symleiddio dogfennau risg i'w gwneud yn hygyrch fel bod y Pwyllgor Archwilio sydd â chyfrifoldeb am drosolwg yn gallu adnabod y prif ffynonellau risg yn rhwydd a bodloni ei hun fod trefniadau wedi eu gwneud i'w rheoli, a bod Rheolwyr yn medru prynu i mewn i'r broses rheoli risg a chofrestru a chymryd perchenogaeth ohonynt fel teclynnau defnyddiol.

  Cadarnhaodd y Dirprwy Brif Weithredwr nad yw wedi ei darbwyllo bod trefniadau rheoli risg wedi gwreiddio'n ddigon cadarn o fewn yr Awdurdod, a dyna pam y cynhaliwyd yr adolygiad ac y lluniwyd cynllun gweithredu wedyn ar gyfer diwygio'r polisi, symleiddio'r matrics risg a darparu hyfforddiant. Mae angen i'r Awdurdod ganolbwyntio ar ei lefelau risg uchel a sicrhau bod y gofrestr yn parhau i fod yn ddogfen fyw. Mae'r holl reolwyr uwch a chanol wedi derbyn hyfforddiant ar y trefniadau rheoli risg ac maent yn gallu ymgorffori rheolaeth risg o fewn eu prosesau cynllunio busnes a'u hadolygiadau perfformiad. Mae'n bwysig bod cysondeb o ran asesu risg a bod risgiau'n cael eu gwerthuso yn erbyn sail gyffredin - bydd y matrics diwygiedig yn cynorthwyo yn y broses honno.

Dywedodd y Pennaeth Adnoddau a Swyddog Adran 151 Dros Dro bod angen i'r Pwyllgor Archwilio dderbyn adroddiadau yn rheolaidd ar reoli risg yn y Cyngor a gallai ofyn i'r rheolwyr perthnasol roi cyfrif yn uniongyrchol i'r Pwyllgor am unrhyw ddiffyg cydymffurfio fydd yn cael ei nodi. Mae'r pro forma ar gyfer adrodd i'r Pwyllgor Gwaith hefyd yn cynnwys adran ar gyfer adrodd yn ôl ar risg a lliniaru nad yw bob amser yn cael ei gwblhau gan awduron yr adroddiadau; mae yna ddadl dros gwestiynu a ddylid derbyn adroddiadau nad ydynt wedi eu llenwi'n briodol o ran rhoi cyfrif am ystyried risg a dogfennu hynny.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a chanfyddiadau'r adolygiad rheoli risg.**

**CAMAU GWEITHREDU'N CODI: Y Rheolwr Risg ac Yswiriant/Dirprwy Brif Weithredwr i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Archwilio yn Ebrill 2015 ar statws a gweithrediad y gofrestr risg gorfforaethol newydd/matrics a'r dogfennau cysylltiol sy'n rhoi cyfarwyddyd ar risg.**

## 5 ARCHWILIO ALLANOL

5.1 Cyflwynwyd er gwybodaeth i'r Pwyllgor a'i nodi Lythyr Archwilio Blynyddol Cyngor Sir Ynys Môn am 2013/14 yn cadarnhau bod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o safbwynt adroddiadau ariannol a'i ddefnydd o adnoddau a hefyd rhoi tystysgrif archwilio ar gwblhau proses archwilio cyfrifon 2013/14.

5.2 Rhoddodd Mr Andy Bruce, SAC ddiweddariad i'r Pwyllgor ar statws, amseriad a chanlyniadau disgwyliedig y gwaith perfformiad archwilio allanol cynlluniedig oedd yn parhau ar lefel genedlaethol a lleol. Nodwyd y wybodaeth.

Gofynnodd Aelod o'r Pwyllgor a allai'r adroddiad oedd yn rhoi diweddariad ar berfformiad, yng ngoleuni'r rhagolygon ariannol heriol i'r Cyngor, gyfeirio at arfer dda o ran arbedion lle roedd hynny'n berthnasol. Cadarnhaodd Mr Andy Bruce bod materion arbedion yn cael eu hamlygu o fewn adolygiadau lleol a'u bod yn ffurfio rhan o'r adborth ffurfiol. Fe allai archwilio allanol, fodd bynnag, edrych i ddwyn arferion da o adroddiadau cenedlaethol.

## 6 ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynwyd er ystyriaeth y Pwyllgor adroddiad y Rheolwr Archwilio Mewnol ar waith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Ebrill i 14 Tachwedd, 2014. Roedd yr adroddiad yn cyfeirio at adolygiadau archwilio a wnaed ac adroddiadau a ryddhawyd a hefyd y farn sicrwydd a roddwyd; atgyfeiriadau i Archwilio Mewnol a'r camau a gymerwyd, ynghyd ag argymhellion archwilio mewnol a statws eu gweithrediad.

Amlygodd y Rheolwr Archwilio Mewnol ddau faes penodol oedd yn destun adroddiadau adolygu Coch yn adlewyrchu nifer o wendidau o ran rheolaeth yn y meysydd adolygu, ac roedd y rhain mewn perthynas â Rheoliadau System - Mynediad rhesymegol a Gwahanu Dyletswyddau, a Grantiau Trydydd Sector. Bydd adroddiad dilyn-i-fyny ar gynnydd yn gweithredu'r argymhellion a wnaed fel rhan o'r adolygiadau hyn yn cael ei ddarparu i gyfarfod mis Chwefror, 2015 o'r Pwyllgor Archwilio. Dywedodd y Rheolwr Archwilio Mewnol y byddai hefyd yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ym mis Chwefror ar y pryderon cyfredol yn yr Uned Archwilio wedi i'r Dirprwy Brif Weithredwr gyflwyno cynllun gweithredu i gyfarfod mis Medi 2014 i roi sylw i'r pryderon hynny.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y wybodaeth a gyflwynwyd ac roedd wedi ei siomi gan y diffygion oedd yn cael eu hadlewyrchu gan yr adroddiadau adolygiad coch o ran absenoldeb polisi a gweithdrefnau yn y meysydd a adolygwyd a lle'r oedd y rheini mewn bodolaeth, ddiffyg ymwybyddiaeth ac / neu fethiant i lynu atynt. Codwyd y mater o atebolrwydd ac yn dilyn o hynny, pa mor ymarferol a fyddai i alw'r rheolwyr penodol i gyfrif. Cadarnhaodd y Rheolwr Archwilio Mewnol bod yr UDA a Phenaethiaid Gwasanaeth wedi cael copi o'r adolygiadau a bod y Dirprwy Brif Weithredwr a'r Pennaeth TG yn edrych ar ffyrdd o ddatrys y materion a godwyd o safbwynt yr adolygiad Rheoliadau System.

Dywedodd y Pennaeth Adnoddau a Swyddog Adran 151 Dros Dro bod y materion a amlygwyd gan yr adroddiad archwilio mewnol yn ailadrodd rhai o'r materion a godwyd o safbwynt rheoli risg o ran diffyg cydymffurfio â phrosesau cywir, a thra roedd teimladau'r Pwyllgor o fod eisiau amlygu cyfrifoldeb yn ddealladwy, cyfrifoldeb Rheolwyr yw ymateb yn briodol i adroddiadau adolygu

archwilio mewnol drwy weithredu'r argymhellion o'u mewn.  Bydd yr adroddiad dilyn-i-fyny i'r Pwyllgor ym mis Chwefror yn cadarnhau a fydd hyn wedi digwydd a'i peidio.  Gallai dyletswydd oruchwylio'r Pwyllgor gael ei defnyddio'n fwy cynhyrchiol efallai i sgriwtineiddio cyfraddau gweithredu'r argymhellion archwilio yn ôl gwasanaeth fel oedd wedi ei nodi yn Atodiad A, ac yn nodi ac yn galw i gyfrif rheolwyr y gwasanaethau oedd yn dangos methiant dro ar ôl tro i weithredu argymhellion archwilio mewnol yn foddhaol dros gyfnod o amser.

Nododd y Rheolwr Archwilio Mewnol nad oedd unrhyw beirianwaith corfforaethol ar gyfer sicrhau a monitro bod polisïau, prosesau ac argymhellion yn cael eu gweithredu ac y glynir wrthynt. Dywedodd y byddai'n dod a dadansoddiad mwy manwl o argymhellion archwilio mewnol oedd yn parhau heb gael sylw, hyd yr amser y maent wedi aros heb eu gweithredu a'r gwasanaethau / rheolwyr sy'n gyfrifol amdanynt i gyfarfod mis Chwefror o'r Pwyllgor Archwilio.

Roedd y Pwyllgor yn cydnabod ei bod yn ymddangos nad oedd cysylltiad rhwng polisïau a phrosesau oedd yn cael eu cyhoeddi a rheolaeth weithredol o'u gweithrediad a chydymffurfiaeth gyda'r hyn sydd ei angen, ac awgrymodd y dylai fel rhan o'i gynllun gweithredu ar gyfer 2015/16 ganolbwyntio ar feysydd nad ydynt yn symud ymlaen.  Dywedodd Mrs Lynn Pamment PwC bod swyddogaeth herio'r Pwyllgor Archwilio yn gorwedd o fewn dilyn drwodd ar gamau gweithredu yn dilyn adolygiad coch ac y byddai'r Pwyllgor efallai'n dymuno ystyried cymryd safiad mwy cadarn o safbwynt gweithredu.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad cynnydd Archwilio Mewnol am Ebrill i Tachwedd 2014 a nodi ei gynnwys.**

**CAMAU GWEITHREDU'N CODI: Y Rheolwr Archwilio Mewnol i ddarparu'r canlynol i gyfarfod mis Chwefror o'r Pwyllgor:**

- **Adroddiadau dilyn-i-fyny ar yr Adolygiadau Coch yng nghyswllt Rheoliadau System – Mynediad Rhesymegol a Gwahaniad Dyletswyddau a Grantiau Trydydd Sector yn cynnwys argymhellion oedd wedi'u gweithredu.**
- **Dadansoddiad manwl o argymhellion archwilio mewnol oedd yn parhau heb eu gweithredu, hyd yr amser y buont felly a'r gwasanaethau/rheolwyr sy'n gyfrifol am hynny.**

**7 ADRODDIAD BLYNYDDOL AR ATAL TWYLL A LLYGREDD 2013/14**

Cyflwynwyd er gwybodaeth i'r Pwyllgor Adroddiad Blynyddol ar weithgaredd o ran gweithredu polisi'r Cyngor ar atal Twyll a Llygredd yn ystod 2013/14

Cyfeiriodd Aelod o'r Pwyllgor at yr hyn oedd i'w weld fel prif flaenoriaeth y dimensiwn twyll o fewn y polisi, ac absenoldeb unrhyw gyfeiriadau at fesurau atal-llygredd, er enghraifft mewn perthynas â sicrhau tryloywder wrth osod contractau mawr.

Dywedodd y Rheolwr Archwilio Mewnol bod KPMG wedi cynnal adolygiad o fframwaith gaffael yr Awdurdod a bod gan y Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Caffael rhestr contract yn ogystal â rheolaethau ychwanegol.  Bydd caffael hefyd yn ffurfio rhan o ddyletswyddau'r Swyddog Atal-twyll. Cadarnhaodd y Pennaeth Adnoddau a Swyddog Adran 151 Dros Dro bod swm fawr o waith wedi ei wneud yn dilyn adolygiad KPMG o ran cynyddu capasiti a chychwyn adolygiad ystod eang o gaffael contractyddol ar draws y Cyngor i nodi arbedion ac i sicrhau bod contractau'n cael eu gosod mewn ffordd strwythuredig ac unffurf ar draws y Cyngor.  Bydd cydymffurfio â phrosesau priodol yn ei gwneud yn fwy anodd i unrhyw lygru ddigwydd.  Dywedodd Mr Joe Hargreaves PwC, bod contractau newydd a rhai diwygiedig a'r prosesau ar gyfer eu gosod yn cael eu gwirio fel rhan o waith archwilio allanol.  Ni chanfuwyd unrhyw anghysonderau.

**Penderfynwyd derbyn yr Adroddiad Blynyddol ar Atal Twyll a Llygredd 2013/14 ac i nodi ei gynnwys.**

**DIM CAMAU GWEITHREDU PELLACH YN CODI**

**8 TREFNIADAU NEWYDD I ATAL TWYLL**

Cyflwynwyd er gwybodaeth i'r Pwyllgor adroddiad y Rheolwr Archwilio Mewnol yn amlinellu'r diwygiadau i'r trefniadau atal twyll a roddwyd yn eu lle mewn ymateb i newidiadau cenedlaethol mewn sut y nodir twyll Budd-dal Tai, a sut y caiff ei ymchwilio a'i erlyn drwy sefydlu Gwasanaeth Ymchwilio Twyll Sengl.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys.**

**DIM CAMAU GWEITHREDU PELLACH YN CODI**

## 9 SEMINAR PWYLLGOR ARCHWILIO

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor Adroddiad y Pennaeth Adnoddau a Swyddog Adran 151 Dros Dro ar ganlyniad seminar i asesu effeithiolrwydd y Pwyllgor Archwilio ac i nodi unrhyw newidiadau sydd yn werth eu nodi o ran cylch gorchwyl a gweithgareddau'r Pwyllgor.

Cyfeiriodd Mrs Sharon Warnes at yr arfer o fewn y Pwyllgor Archwilio mewn awdurdod cyfagos o safbwynt sefydlu gweithgorau oedd yn cyfarfod yn yr amser rhwng y cyfarfodydd ffurfiol o'r Pwyllgor Archwilio er mwyn canolbwyntio ar feysydd penodol mewn mwy o fanylder a dyfnder nag y gellir ei wneud mewn pwyllgor arferol. Nododd y Pwyllgor y wybodaeth fel opsiwn wrth ystyried sut y gellir gwella effeithiolrwydd y Pwyllgor Archwilio.

**Penderfynwyd –**

- **Argymell i'r Pwyllgor Gwaith, ac wedi hynny i'r Cyngor, bod enw'r Pwyllgor Archwilio yn cael ei newid i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.**
- **Gofyn am i'r Rheolwr Archwilio mewnol gynnal adolygiad o effeithlonrwydd trefniadau'r Cyngor ar gyfer delio â gweithio mewn partneriaeth.**
- **I nodi ei gamau yn y gorffennol ac i barhau i gynnal yr hunanasesiad blynyddol o'i effeithlonrwydd.**

**DIM CAMAU GWEITHREDU PELLACH YN CODI**

**Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes**
**Cadeirydd**

DRAFT

# PWYLLGOR ARCHWILIO

## Cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 9 Chwefror, 2015

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd John Griffith (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Richard Owain Jones, R. Llewelyn Jones, Alun Mummery, Dafydd Rhys Thomas<br><br>Aelodau Lleyg: Mr Richard Barker a Mrs Sharon Warnes |
| **WRTH LAW**: | Rheolwr Archwilio Mewnol (JF)<br>Rheolwyr Gwasanaethau Cyfrifeg Dros Dro (BHO) (ar gyfer eitem 2)<br>Uwch Gyfrifydd (Cynllunio Strategol) (BD) (ar gyfer eitem 2)<br>Cyfrifydd Cyfalaf a Rheoli Trysorlys (GR) (ar gyfer eitem 2)<br>Swyddog Atal Twyll Corfforaethol (HE)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorydd Jim Evans |
| **HEFYD YN BRESENNOL**: | Y Cynghorydd H. Eifion Jones (Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid) (ar gyfer eitem 2) |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**2 DATGANIAD AR STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS 2015/16**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Adnoddau a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro yn cynnwys y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys am 2015/16 i sylw'r Pwyllgor a hynny'n unol â Chôd Ymarfer CIPFA ar gyfer Rheoli Trysorlys.

Dygodd yr Uwch Gyfrifydd (Cynllunio Strategol) sylw at y prif ystyriaethau isod:

- Yn 2015/16 bwriedir rhoi sylw i absenoldeb dogfennaeth Arferion Rheoli Trysorlys (ARhT) yn yr Awdurdod gyda'r nod o sicrhau y bydd cyflenwad llawn o ddogfennau ARhT yn cael eu cyflwyno i'w cymeradwyo'n ddemocrataidd trwy'r sianelau Pwyllgor priodol cyn gynted ag y bo modd yn unol â'r Cynllun Dirprwyo arfaethedig ar gyfer Rheoli'r Trysorlys.
- Mai dim ond un diweddariad a gynigir i Ddatganiad 2014/15 ar gyfer Datganiad Rheoli Trysorlys 2015/16 sef:

    - Na fydd adroddiadau chwarter un a chwarter tri ar faterion Rheoli Trysorlys yn cael eu cynhyrchu mwyach a chânt eu hadlewyrchu yn Rheolau Sefydlog yr Awdurdod fel sydd wedi ei nodi yn Atodiad 9 i'r adroddiad.

      Bwriedir y bydd y categorïau buddsoddi posib a ddefnyddir ynghyd â'r meini prawf ar gyfer graddio credyd a therfynau buddsoddi yn cael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn a bydd rhaid cymeradwyo unrhyw newidiadau ymlaen llaw yn unol â'r Cynllun Dirprwyo ar gyfer Rheoli'r Trysorlys.

- Mae'r bwriad i dynnu allan o'r system cymhorthdal ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai ar 2 Ebrill 2015 wedi ei gymryd i ystyriaeth yn y dangosyddion darbodus (yr ymhelaethir arnynt yn Atodiad 11) ar y sail a nodir yn Atodiad 12.

- Y dylai'r pennawd ar yr ail golofn yn nangosydd 19 yn Atodiad 11 ddarllen 2015/16 ar gyfer y terfynau uwch ac is (ac nid 2014/15).

  Rhoddodd y Pwyllgor sylw i'r wybodaeth a gyflwynwyd a gofynnodd am eglurhad ar rai materion mewn perthynas â chost cymharol uchel trefniadau benthyca tymor byr yr Awdurdod a'r dynodiad o angen i fenthyca a'r hyn yr oedd hynny'n ei olygu. Er i'r Pwyllgor nodi a derbyn bod y Strategaeth Rheoli Trysorlys yn seiliedig yn bennaf ar agwedd ddarbodus a gofalus tuag at fuddsoddi a benthyca, gofynnodd am sicrwydd bod y Strategaeth yn parhau i gael ei hadolygu a'i bod yn ymatebol i newidiadau yn y farchnad a newidiadau eraill a bod yr elfen hyblygrwydd hon wedi ei hamlygu yn y Strategaeth.

  Cadarnhaodd yr Uwch Gyfrifydd (Cynllunio Strategol) fod rheoli trysorlys yn broses fyw a bod amrywiadau a newidiadau economaidd a/neu yn y farchnad, yn ogystal â chyngor gan ymgynghorwyr trysorlys yr Awdurdod, oll yn cael eu cymryd i ystyriaeth a'u bod yn siapio'r sefyllfa a'r arferion buddsoddi.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi cynnwys yr adroddiad ar y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys.**
- **Cymeradwyo'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2015/16 (gan gynnwys y Dangosyddion Darbodus a Rheoli Trysorlys) yn Atodiad A i'r adroddiad, a**
- **Anfon y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys i'r Pwyllgor Gwaith heb ragor o sylwadau.**

**DIM CAM GWEITHREDU PELLACH YN CODI**

**3 PWYLLGOR ARCHWILIO – ADOLYGU EFFEITHIOLRWYDD**

Cyflwynwyd i'w ystyried ac ar gyfer sylwadau, adroddiad y Rheolwr Archwilio mewnol ar ganlyniad y gweithgor blynyddol ar effeithiolrwydd y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 19 Ionawr 2015.

Dywedodd y Rheolydd Archwilio fod yr adroddiad yn Atodiad A yn nodi canlyniadau gwerthusiad y gweithdy o Arferion Da'r Pwyllgor Archwilio ar ffurf rhestr wirio CIPFA - Hunanasesiad o Arfer Dda. At ei gilydd, roedd hunanasesiad y Pwyllgor Archwilio o'i berfformiad yn erbyn arfer dda yn gadarnhaol ac ystyriwyd mai dim ond un o'r 20 arfer dda oedd ddim yn cael eu cyflawni gan y Pwyllgor a bod modd gwella 4 arall allan o 20 o ran pwrpas a llywodraethiant; cyflawni swyddogaethau'r Pwyllgor ac aelodaeth a chefnogaeth. Yn ogystal, cwblhaodd y Rheolwr Archwilio gopi o restr wirio CIPFA i nodi'r meysydd hynny lle 'roedd gan y Pwyllgor gryfderau, yn ei farn broffesiynol ef, ynghyd â'r meysydd y gellir eu gwella fel yr adroddwyd yn rhan 2.5 yr adroddiad. 'Roedd Cynllun Gweithredu arfaethedig wedi ei gynnwys yn Atodiad C a oedd yn amlinellu sut a pha bryd yn ystod 2015/16 y bydd y gwendidau yn cael sylw a chan bwy.

Rhoddodd y Pwyllgor sylw i'r adroddiad ac yn gyffredinol roedd yn siomedig gyda chywair y gwerthusiad oherwydd fod iddo, ym marn y Pwyllgor, elfen negyddol. Cyflwynwyd safbwynt bod y Pwyllgor Archwilio wedi codi nifer o faterion o ran gwendidau a hepgoriadau mewn nifer o feysydd polisi ac arferion yn ystod y flwyddyn, yn arbennig felly'r trefniadau rheoli risg, ac nad yw'r rheini wedi eu cynnwys yn y gwerthusiad perfformiad ym mharagraff 2.5. Pwysleisiwyd nad yw'r her a gynigir gan y Pwyllgor Archwilio ond yn effeithiol os yw'r sefydliad/rheolwyr yn gweithredu arni a'i bod yn ymddangos bod y Pwyllgor yn cael ei farnu oherwydd diffyg gweithredu ar lefel gorfforaethol boed hynny oherwydd materion adnoddau neu ystyriaethau eraill.

Dywedodd y Rheolydd Archwilio Mewnol y bydd casgliadau'r gweithgor hefyd yn cael eu defnyddio i siapio adroddiad blynyddol y Cadeirydd ar weithgareddau'r Pwyllgor Archwilio, sef y sianel briodol ar gyfer myfyrio'n briodol ar agweddau cadarnhaol gwaith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn. Dylid ystyried adroddiad perfformiad y Rheolydd Archwilio Mewnol fel adroddiad eithrio. Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi bod yn gyson yn ei ymdrechion i sicrhau newid ond ni ellir ond ei weld fel Pwyllgor effeithiol os yw'r newid yn cael ei weithredu, a hyd yma nid yw'r gefnogaeth a'r symbyliad a ddarparwyd gan y Pwyllgor wedi bod yn effeithiol o ran cyflawni'r canlyniad a ddeisyfir, yn arbennig felly mewn perthynas â Rheoli Risg.

Nododd y Pwyllgor fod adroddiad gwaith ar drefniadau Rheoli Risg wedi ei raglennu ar gyfer ei gyfarfod mis Ebrill ac y gofynnir i Uwch Reolwyr roi cyfrif am unrhyw ddiffyg cynnydd bryd hynny.



DRAFFT

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad, nodi ei gynnwys a chymeradwyo datblygu'r Cynllun Gweithredu yn Atodiad C yn 2015/16 i fynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd.**

**DIM CAMAU GWEITHREDU PELLACH YN CODI**

## 4 YMGYNGHORI AR Y BWRIAD I ADOLYGU CYLCH GORCHWYL Y PWYLLGOR ARCHWILIO

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Archwilio Mewnol yn cynnwys cylch gorchwyl drafft newydd i'r Pwyllgor Archwilio. Roedd y cylch gorchwyl newydd yn adlewyrchu newidiadau yn y fframwaith rheoleiddiol a phwyslais cynyddol ar ddatblygu rôl y Pwyllgor Archwilio mewn perthynas â holl agweddau sicrwydd ac nid yn unig proses a threfniadau adrodd ariannol yr Awdurdod.

Dywedodd y Rheolwr Archwilio Mewnol fod y cylch gorchwyl yn seiliedig ar gyfarwyddyd CIPFA a hefyd gylch gorchwyl Pwyllgorau Archwilio eraill mewn Awdurdodau eraill. Y bwriad wrth adolygu'r cylch gorchwyl yw ymestyn cyfrifoldebau trosolwg y Pwyllgor y tu hwnt i ddatganiadau ariannol i gynnwys llywodraethu cyffredinol a'r amgylchedd risg. Bydd y cylch gorchwyl newydd yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Ebrill ac wedi hynny i'r Cyngor Sir ym Mai.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y Cylch Gorchwyl ac fe wnaed y pwyntiau canlynol -

- Mai bwriad y gweithdy effeithlonrwydd oedd i'r Pwyllgor sgriwtineiddio'r cylch gorchwyl i sefydlu sut y bydd yn eu gweithredu ac fe ellid pasio hynny ymlaen i'r Swyddog Monitro fel arwydd clir o fwriad y Pwyllgor hwn. Gallai hyn hefyd gysylltu i mewn â sylwadau am Sgriwtini a'r angen i egluro rolau penodol sgriwtini ac archwilio.
- Bod angen i'r Pwyllgor gymryd mwy o ran yn hyrwyddo a datblygu trefniadau o fewn yr Awdurdod ar gyfer sicrhau gwerth am arian.
- Bod angen i'r Pwyllgor feddwl a oes ganddo broffil digon uchel o fewn yr Awdurdod i allu dylanwadu'n wirioneddol ac i gyfrannu tuag at effeithlonrwydd y Cyngor fel corff corfforaethol. Awgrymwyd y gallai'r Pwyllgor fod yn fwy rhagweithiol yn gosod rhaglen sy'n berthnasol yng nghyd-destun y Cyngor cyfan.
- Tra'n derbyn y cylch gorchwyl fel yr oedd wedi'i gyflwyno fel rhywbeth oedd yn darparu fframwaith da lle gallai'r Pwyllgor Archwilio weithredu o'i fewn yn y dyfodol, pwysleisiwyd bod angen i'r Pwyllgor sicrhau bod y materion allweddol yn cael eu gyrru ymlaen. Pwysleisiwyd hefyd bod angen i'r Pwyllgor, er mwyn gallu gwireddu ei fandad fel oedd wedi ei nodi yn y cylch gorchwyl, fod wedi ei sicrhau y bydd y materion y mae'n tynnu sylw atynt yn cael sylw gan reolwyr. I'r perwyl hwn, ac er lles atebolrwydd cynigiwyd a chytunwyd y dylid gofyn i Aelod o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn ychwanegol i'r Swyddog Adran 151 fynychu pob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio.
- Bod angen i'r Pwyllgor fod yn glir ynglŷn â'i ddisgwyliadau o'r hyn y mae'r Pwyllgor Archwilio ei angen o ran cefnogaeth ac adnoddau.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r cylch gorchwyl fel oedd wedi'i gyflwyno.**

**CAMAU GWEITHREDU'N CODI: Rheolwr Archwilio Mewnol i gysylltu gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth mewn perthynas â mynychu cyfarfodydd Pwyllgor Archwilio.**

## 5 RÔL Y SWYDDOG ATAL TWYLL

Cyflwynwyd, er gwybodaeth y Pwyllgor adroddiad, gan Swyddog Atal Twyll yr Awdurdod yn nodi cyfrifoldebau ei swydd.

Eglurodd y Swyddog Atal Twyll Corfforaethol beth oedd y cefndir i sefydlu'r swydd a'r hyn yr oedd yn ei olygu yn arbennig o safbwynt bod yn fwy rhagweithiol yn rhwystro twyll a hyrwyddo diwylliant atal twyll gwell o fewn yr Awdurdod.

Bu'r Pwyllgor yn holi'r Swyddog Atal Twyll Corfforaethol ynglŷn â manylion ei waith a rhoddwyd esiamplau o'r gweithgareddau a wneir. Cyfeiriodd y Swyddog at waith oedd ar droed i ganfod pa asesiadau risg twyll sydd wedi eu cynnal o fewn gwasanaethau a pha bolisïau sydd wedi eu rhoi mewn grym i atal unrhyw risgiau a welwyd a sut y caiff y rhain eu dwyn i sylw staff. Mae'r arwyddion cychwynnol yn dangos bod angen gwneud gwaith pellach yn hyn o beth. Nododd y Pwyllgor hyn fel mater "cadw tŷ" pellach oedd angen sylw.

Cadarnhaodd y Rheolwr Archwilio Mewnol bod y Swyddog Atal Twyll Corfforaethol yn cynnal asesiad risg twyll cynhwysfawr o'r Awdurdod cyfan gyda golwg ar adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Ebrill a bydd hynny'n darparu datganiad sefyllfa o safle'r Awdurdod yng nghyswllt pob maes o risg twyll, beth sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael â hwy a hefyd yr argymhellion i Benaethiaid Gwasanaeth ar gyfer cryfhau'r rheolaethau o fewn eu gwasanaethau.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys.**

**DIM CAMAU PELLACH YN CODI.**

**Y Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes**
**Cadeirydd**

DRAFFT

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I** | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| **DYDDIAD** | **23 CHWEFROR 2015** |
| **PWNC** | **RHEOLI'R TRYSORLYS – TRYDYDD CHWARTER 2014/15** |
| **SWYDDOG(ION) ARWEINIOL** | **RICHARD MICKLEWRIGHT** |
| **SWYDDOG CYSWLLT** | **GARETH ROBERTS (FFÔN: 2675)** |

**Natur a rheswm dros adrodd**

I'w sgriwtineiddio - yn gyson ag arweiniad proffesiynol.

**1.** Cyflwynir yr adroddiad hwn i sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â Chôd Ymarfer ar Reoli Trysorlys a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA) ac sy'n argymell diweddaru Aelodau ar weithgaredd rheoli trysorlys o leiaf ddwy waith y flwyddyn.

**2.** Yn ddiweddar, rhoes ymgynghorwyr trysorlys y Cyngor (Capita Asset Services) sylwebaeth ar gefndir economaidd (Atodiad 1) a'r rhagolygon economaidd (Atodiad 2) ynghyd â'r rhagolygon llog yn y tabl isod:-

| | Mar-15 | Jun-15 | Sep-15 | Dec-15 | Mar-16 | Jun-16 | Sep-16 | Dec-16 | Mar-17 | Jun-17 | Sep-17 | Dec-17 | Mar-18 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Bank rate | 0.50% | 0.50% | 0.50% | 0.75% | 0.75% | 1.00% | 1.00% | 1.25% | 1.25% | 1.50% | 1.75% | 1.75% | 2.00% |
| 5yr PWLB rate | 2.20% | 2.20% | 2.30% | 2.50% | 2.60% | 2.80% | 2.90% | 3.00% | 3.20% | 3.30% | 3.40% | 3.50% | 3.60% |
| 10yr PWLB rate | 2.80% | 2.80% | 3.00% | 3.20% | 3.30% | 3.50% | 3.60% | 3.70% | 3.80% | 3.90% | 4.00% | 4.10% | 4.20% |
| 25yr PWLB rate | 3.40% | 3.50% | 3.70% | 3.80% | 4.00% | 4.20% | 4.30% | 4.40% | 4.50% | 4.60% | 4.70% | 4.70% | 4.80% |
| 50yr PWLB rate | 3.40% | 3.50% | 3.70% | 3.80% | 4.00% | 4.20% | 4.30% | 4.40% | 4.50% | 4.60% | 4.70% | 4.70% | 4.80% |

**2.1** Mae'r tabl uchod yn cynrychioli barn Capita Assets Services ar ôl cynnal adolygiad ar 5 Ionawr 2015 o'r rhagolygon ar gyfer y farchnad log, ar ôl pryderon yn y marchnadoedd ariannol am y cwymp ym mhris olew a achosodd symud arian o ecwitis i fondiau ac o fod yn agored i ddyledion ac ecwitis gwledydd sy'n esblygu o ran cynhyrchu olew i lochesi diogel yng ngwledydd y gorllewin. Gwaethygwyd y llif hwn gan bryderon y gallai Gwlad Groeg dynnu allan o'r ewro ar ôl yr Etholiad Cyffredinol ar 25 Ionawr 2015 a'r llifoedd ariannol yn sgil y tebygolrwydd cynyddol y byddai'r ECB yn cychwyn proses lliniaru meintiol i brynu dyled llywodraethau'r Parth Ewropeaidd. Yn ychwanegol, gwelwyd cynnydd mawr yn lefelau hyder y byddai'r Unol Daleithiau yn cynyddu'r gyfradd Fed erbyn canol 2015 oherwydd y twf aruthrol yn GDP chwarteri 2 a 3 yn 2014. Roedd hyn yn arwydd bod yr Unol Daleithiau ar y ffordd i wneud adferiad llawn o argyfwng ariannol 2008.

**3.** Ar ddechrau'r flwyddyn, roedd portffolio benthyca'r Cyngor i gyd o PWLB ac roedd £19.2m yn is na'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC) (h.y. rhan o'r benthyca wedi ei fewnoli). Erbyn diwedd y flwyddyn, rhagwelir bydd y GCC yn £114.8m, ac, o ganlyniad, mae gofyn i fenthyca £25.2m. Dywed y Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (Adran 3.4.1) y bydd angen mabwysiadu agwedd hyblyg mewn perthynas â'r dewis rhwng benthyca mewnol ac allanol. Parheir i ddilyn y dull hwnnw o weithredu a rhoddir sylw i'r holl ffactorau a restrir yn yr adran honno. Mae'r penderfyniad i barhau i fewnoli wedi ei yrru'n bennaf gan 2 ffactor: (1) cyfyngu risg credyd i'r Awdurdod (2) cyfyngu cost cario. Mae hyn yn erbyn cefndir o gyfraddau buddsoddi a chyfraddau PWLB sy'n parhau i fod yn hanesyddol o isel, gyda dim ond cynnydd graddol yn cael ei ragweld i'r tymor canol. Mae'r dull hwn o weithredu yn gyson â'r hyn a wneir gan lawer o awdurdodau lleol eraill a holwyd mewn seminarau a gweithdai y bu swyddogion y Swyddogaeth Adnoddau yn bresennol ynddynt. Mae'r ymgynghorwyr a benodwyd ar gyfer y trysorlys (Capita Asset Services) hefyd wedi cefnogi'r penderfyniad i barhau i fenthyca'n fewnol ar hyn o bryd. Erbyn diwedd y flwyddyn, rhagwelir y bydd benthyca allanol yn £89.6m. Rhoddir gwybod am unrhyw newidiadau i'r dull cyfredol o weithredu fel sy'n briodol.

**4.** Mae'r tabl isod yn dangos y benthyciadau a buddsoddiadau ar gychwyn ac ar ddiwedd y chwarter:-

| | **31 Rhagfyr 2014** | | **30 Medi 2014** | |
|---|---|---|---|---|
| | **£m** | **%** | **£m** | **%** |
| Benthyca - graddfa sefydlog | 89.6 | 5.72 | 89.6 | 5.72 |
| Benthyca - graddfa amrywiol | Dim | d/b | Dim | d/b |
| Adneuon - Ar gael i 30 diwrnod | 13.3 | 0.39 | 18.6 | 0.39 |
| Adneuon - Cyfnod Sefydlog < 1 blwyddyn | Dim | d/b | Dim | d/b |
| Adneuon - Cyfnod Sefydlog 1 blwyddyn + | Dim | d/b | Dim | d/b |
| Cyfanswm yr Adneuon | 13.3 | 0.39 | 18.6 | 0.39 |
| Yr Adneuon ar gyfartaledd yn y Chwarter | 21.2 | 0.41 | 21.2 | 0.43 |

**4.1** Mae manylion am y sefydliadau sydd ag adneuon ar gael yn Atodiad 3.

**4.2** Mae dau bwynt sy'n werth eu nodi yng nghyswllt yr hinsawdd buddsoddi:-

- Mae rhestr o wrthbartïon sy'n gymeradwy o ran credyd yn parhau i fod yn gyfyngedig iawn, gydag ond ychydig iawn o wrthbartïon sy'n bodloni'r meini prawf wedi eu cymeradwyo yng nghyswllt credyd; ac

- Mae'r cyfraddau buddsoddi sydd ar gael yn y farchnad wedi parhau ar lefelau sy'n hanesyddol isel.

**4.3** Fel y cyfeiriwyd ato yn Adran 3, ni chafwyd unrhyw fenthyca allanol yn ystod y chwarter. Hefyd, mae'r cyfleon i aildrefnu dyledion wedi parhau i fod yn brin yn yr hinsawdd economaidd gyfredol ac yn dilyn y cynnydd yn yr ymyl a ychwanegir at enillion gilt sydd wedi cael effaith ar gyfraddau benthyca newydd PWLB ers Hydref 2010. Ni ad-drefnwyd unrhyw ddyledion yn ystod y chwarter.

**5.** Yn ystod y chwarter, bu modd i'r Cyngor gadw o fewn ei Gyfyngiadau Pwyllog a Thrysorlys.

**6.** Nid oes unrhyw faterion i'w nodi ers ddiwedd y chwarter.

**7.** Y cynlluniau ar gyfer gweddill y flwyddyn yw:-

**4.1** Yn ystod y flwyddyn, rhaid i'r Adain Archwilio Mewnol wneud gwaith ar faterion a ddaw i'r fei yn ystod y gwaith archwilio rhaglenedig neu faterion a ddygir i'w sylw gan Adrannau eraill neu waith y mae Adrannau eraill yn gofyn i'r Adain Archwilio Mewnol ei wneud. Hefyd, mae'n bosib y bydd yr Archwiliwr Allanol yn gofyn iddynt am wybodaeth neu am gymorth i ddarparu gwybodaeth. Yn sgil rhai o'r cyfeiriadau hyn, cyhoeddir adroddiadau archwilio ffurfiol a bydd eraill yn cael eu cofnodi mewn Nodiadau Ffeil (e.e. pan fo'r haeriad yn anghywir ac o'r herwydd does dim byd i'w adrodd yn ôl, neu pan nad yw swm a sylwedd y gwaith yn ddigon i gyfiawnhau adroddiad archwilio llawn neu pan fo'r mater wedi cael sylw mewn adroddiad gan yr Archwiliwr Allanol).

**4.2** Mae nifer o Nodiadau Ffeil wedi cael eu cynhyrchu hyd yma yn 2014/15. Nid oes unrhyw ddarn o waith a arweiniodd at gynhyrchu Nodyn Ffeil wedi dod o hyd i unrhyw dystiolaeth o dwyll neu afreoleidd-dra.

**4.3** Fel y dywedyd yn y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor Archwilio, mae'r Heddlu wrthi'n ymchwilio i un cyfeiriad o 2012/13. Cafodd y Tîm Archwilio Mewnol ddatganiad drafft gan yr Heddlu a gwblhawyd a ddychwelyd yn Awst 2014. Rhoddir gwybod yn y man i'r Pwyllgor am ganlyniad yr achos hwn.

**4.4** Mae'r Pwyllgor eisioes wedi cael ei hysbysu ynghlyn ag ymgais perthanasol â Credydwyr i dwyllo'r Cyngor ac eraill. Ar y 25 Ionawr cafodd Archwilio Mewnol ymateb gan yr heddlu trwy ebost ynghylch y cyfeiriad hwn. Dyma'r ymateb isod er gwybodaeth i'r Pwyllgor:

> *Cynhaliwyd ymchwiliad cymesur i'ch adroddiad penodol chi yn unol â pholisi ymchwilio i Dwyll Heddlu Gorllewin y Midlands a phenderfynwyd na fydd unrhyw ymchwiliad pellach yn cael ei gynnal ar hyn o bryd. Nid oes gan y polisi drothwy ariannol ond mae'n canolbwyntio ein hadnoddau ar ddioddefwyr bregus a'r troseddwyr hynny sy'n peri'r risg, y niwed a'r bygythiad mwyaf i'r cyhoedd. Yr ydym hefyd yn cymryd i ystyriaeth unrhyw wybodaeth ddilys, y tebygolrwydd o sicrhau euogfarn droseddol a'r adnoddau sydd ar gael.*

DRAFT

## 5. TRACIO ARGYMHELLION

5.1 Mae argymhellion a wnaed ers 01-04-2010 wedi cael eu cynnwys yn y dadansoddiad tracio argymhellion er gwybodaeth y Pwyllgor hwn yn unig.

5.2 Y gyfradd weithredu ganrannol ar 14 Ionawr 2015 oedd 61% ar gyfer argymhellion 'Uchel' a 'Chanolig'. Mae'r perfformiad mewn perthynas â'r argymhellion heblaw am y rhai sy'n berthnasol i Addysg yn 79% (Ffigyrau fel yr oeddynt ar 14.01.15).

Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cydgysylltu'n barhaus gyda'r Gwasanaeth Addysg ar welliannau i'r broses ar gyfer adrodd ar gyfraddau gweithredu yn yr ysgolion.

5.3 Yn Atodiad A, ceir graff yn dangos manylion yr argymhellion a weithredwyd fesul Gwasanaeth.

5.4 Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi gofyn am ddadansoddiad manylach o'r argymhellion categori uchel sydd heb gael sylw ac mae tabl o'r holl argymhellion o'r fath, gan gynnwys y swyddog sy'n gyfrifol amdanynt, i'w weld yn Atodiad B.

## 6. PRYDERON ARCHWILIO PARHAUS

6.1 Cyflwynwyd adroddiad gan y Dirprwy Brif Weithredwr ar gynnydd a wnaed yn y meysydd yr adroddwyd arnynt yn wreiddiol i'r Pwyllgor yn y cyfarfod ym Medi 2014. Bydd y meysydd hyn yn parhau i fod yn bryder i'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol hyd nes y bydd yr holl argymhellion sylweddol wedi eu gweithredu a hyd nes y gellir cael sicrwydd bod y fframweithiau a'r systemau wedi cael eu sefydlu a'u bod yn gadarn ac yn effeithiol. Nodir y sefyllfa gyfredol mewn perthynas â'r meysydd hyn isod:

- **Parhad Busnes** – Mae camau gweithredu a argymhellwyd i gryfhau trefniadau rheoli yn y maes hwn wedi cael eu casglu o nifer o adroddiadau gan ddarparwyr sicrwydd, gan gynnwys Archwilio Mewnol ac maent wedi cael eu cynnwys yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Rheoli Gwybodaeth Gorfforaethol. Mae cynnydd ar drefniadau yn cael ei wneud bellach ar lefel Gogledd Cymru.

- **Rheoli Risg** – Mae'r Cyngor wrthi'n datblygu ei Fframwaith Rheoli Risg ei hun ac yn sefydlu trefniadau rheoli risg yn gadarn yn y sefydliad. Mae'r Gofrestr Risg Gorfforaethol wrthi'n cael ei datblygu a bydd trefn adrodd reolaidd yn cael ei gweithredu.

- **Rheoli Gwybodaeth** - Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth hefyd wedi cynnal adolygiad yn y maes hwn ac wedi nodi problemau a gwendidau rheoli tebyg i'r rheiny a nodwyd gan SAC, PWC a'r Adain Archwilio Mewnol mewn adroddiadau blaenorol. Mae adroddiad dilyn i fyny drafft gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn cael sylw.

- **Llywodraethiant** – Nodwyd unwaith eto faterion mewn perthynas â diffyg cydymffurfiaeth gyda pholisïau a gweithdrefnau corfforaethol allweddol ar gyfer 2014-15, er enghraifft, mewn perthynas â chaffael corfforaethol; Diogelwch TGCh, Cynllun Trydydd Sector ac ati. Mae'r Cyngor wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio ei system electronig ar gyfer cydymffurfio gyda pholisïau

a'u derbyn lle yr oedd defnyddwyr yn cofnodi eu bod wedi darllen a deall y polisïau ac yn cytuno i lynu wrthynt. Heb gofnod o'r fath eu bod wedi eu derbyn, mae'n fwy anodd dangos eu bod wedi cael eu cylchredeg yn ddigonol i'r staff perthnasol. Cyhoeddwyd adroddiad ynglŷn â'r materion hyn yn 2011-12, ac unwaith eto yn yr adroddiad Mynediad Rhesymegol fis Hydref 2014; fodd bynnag, roedd nifer o'r argymhellion heb eu gweithredu.

- **<u>Fframwaith Caffael Corfforaethol</u>** – Mae'r rheolwyr wedi ailstrwythuro a chryfhau'r Tim Caffael. Bydd Rheolau Gweithdrefn Contractau newydd yn cael eu cyflwyno a'u gweithredu. Mae adolygiad o'r trefniadau caffael wedi ei gynnwys yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn 2015/16 i roi sicrwydd bod y newidiadau a wnaed wedi gwella cydymffurfiaeth gyda rheoliadau, polisiau a gweithdrefnau caffael.

  Yn dilyn yr adolygiad o Drefniadau Partneriaeth mis Mehefin 2013 trefnir archwiliad dilyn i fyny i'w gynnal yn Chwarter 4 2014/15.

- **<u>Gweithredu Argymhellion Ysgolion</u>** – Mae problem barhaus mewn perthynas â gweithredu ar argymhellion archwilio mewnol gan ysgolion. Mae'r argymhellion hyn yn ymwneud â materion ariannol a llywodraethiant mewn ysgolion a ddylai fod yn destun pryder i Brifathrawon ac i'r Adran Addysg.

**RHEOLWR ARCHWILIO**
**23 CHWEFROR 2015**


DRAFT

**ATODIAD A**

**Tabl Tracio Argymhellion - yr Holl Argymhellion Uchel a Chanolig (dim yn cynnwys Addysg) sydd wedi cael eu creu ers 01-04-2012**

**Tabl Cynnydd:** % Argymhellion yn y categorïau uchel a chanolig a weithredwyd / na weithredwyd fesul Gwasanaeth lle gwnaed mwy na 10 o Argymhellion heb gynnwys Addysg, a oedd ar ddiwedd y cyfnod, yn **79%** o'r holl argymhellion a wnaed**.**

Yn ein barn ni felly ac yn seiliedig ar y data hunanasesu yn y Tabl Cynnydd uchod, mae'r Cyngor wedi gwneud **'cynnydd da'** yn y cyfnod o ran gweithredu'r argymhellion Archwilio Mewnol a oedd yn y categori Uchel a Chanolig.




**O.N. Dylid nodi bod y gyfradd weithredu uwch yn ganlyniad glanhau data ar gyfer argymhellion gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol a newid nifer o ddyddiadau targed ar gyfer eu gweithredu oherwydd bod rhai argymhellion wedi cael eu gweithredu'n rhannol neu lle mae'r swyddog sy'n gyfrifol am eu gweithredu wedi newid.**

**ATODIAD B**

**Argymhellion Categori Uchel sydd heb eu gweithredu ar 14 Ionawr 2015**

| Cyf | Adroddiad AM | Crynodeb o'r Argymhelliad | Dyddiad Creu | Dyddiad Targed ar gyfer gweithredu | Swyddog Cyfrifol | Statws Cyfredol | Sylwadau | AG |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Parhad Busnes 1812.12/13 | Sicrhau bod yr argymhellion a wneir yn yr adroddiad Parhad Busnes 1812 12/13 yn cael ei weithredu | 07/10/2014 | 31/12/2014 | Trawsnewid | Yn cael ei weithredu | Ers 1 Gorffennaf 2014, mae'r swyddogaeth Cynlluniau Argyfwng ar gyfer y Cyngor wedi bod yn cael ei chyflawni trwy Wasanaeth Cynllunio Argyfwng Gogledd Cymru. Yn disgwyl diweddariad ar y sefyllfa mewn perthynas â'r Cynllun Parhad Busnes | Gwyrdd /Amber |
| 2 | Rheolaethau Systemau – Mynediad Rhesymegol a gwahanu Dyletswyddau 1961.14/15 | Unwaith y mae'r Polisi Diogelwch TGCh diwygiedig a'r meddalwedd cydymffurfiaeth wedi ei sefydlu caniateir cyfnod o bythefnos i ddechreuwyr newydd gymeradwyo'r polisiau cyn diddymu hawliau mynediad. | 07/10/2014 | 31/03/2015 | Rheolydd Gwasanaethau Technegol | O fewn y dyddiad targed | | Gwyrdd |
| 3 | Rheolaethau Systemau – Mynediad Rhesymegol a gwahanu Dyletswyddau 1961.14/15 | Dylai ffurflenni ar gyfer dechreuwyr newydd sy'n awdurdodi ceisiadau iddynt gael mynediad i rwydwaith y Cyngor gael eu cadw'n briodol fel bod modd dod o hyd iddynt pan ofynnir amdanynt. | 07/10/2014 | 31/12/2014 | Rheolydd Gwasanaethau Technegol | | Wedi ei gynnwys yn yr adolygiad dilyn i fyny yn Ionawr 2015. | Coch |
| 4 | Rheolaethau Systemau – Mynediad Rhesymegol a gwahanu Dyletswyddau 1961.14/15 | Dylid adolygu'r grwpiau a'r hawliau mynediad ar y systemau Cyflogau ac Adnoddau Dynol i sicrhau bod dyletswyddau wedi eu gwaharddu'n ddiogel fel nad yw swyddogion sy'n prosesu manylion cyflog yn gallu creu a diwygio cofnodiadau a chreu defnyddwyr ar y system ac i'r gwrthwyneb ar gyfer gweithwyr AD. | 07/10/2014 | 31/12/2014 | Rheolydd Gwasanaethau Adnoddau Dynol/Pennaeth Adnoddau | | Wedi ei gynnwys yn yr adolygiad dilyn i fyny yn Ionawr 2015. | Coch |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 5 | Rheolaethau Systemau – Mynediad Rhesymegol a gwahanu Dyletswyddau 1961.14/15 | Dylai TGCh dderbyn sicrwydd bod asedau TGCh a anfonwyd ar gyfer ei ddinistrio wedi cael eu dinistrio mewn gwirionedd, ynghyd â sut y gwnaed hynny a pha bryd. Dylai TGCh gynnal cofrestr o asedau a gafodd ei ddinistrio a'i chymharu gyda manylion y gwneir gan y contractwyr perthnasol ynglŷn â'r offer a ddinistriwyd. | 07/10/2014 | 31/12/2014 | Rheolydd Gwasanaethau Technegol | | Wedi ei gynnwys yn yr adolygiad dilyn i fyny yn Ionawr 2015. | |
| 6 | Rheolaethau Systemau – Mynediad Rhesymegol a gwahanu Dyletswyddau 1961.14/15 | Yn unol ag arferion gorau a Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor dylid gwahanu'r dyletswyddau yn y systemau ariannol a ganlyn gan gynnwys: Cofrestr Asedau; Dyledwyr; Ledjer; derbynebau arian a Chyflogau | 07/10/2014 | 31/12/2014 | Pennaeth Adnoddau | | Wedi ei gynnwys yn yr adolygiad dilyn i fyny yn Ionawr 2015. | Coch |
| 7 | Rheolaethau Systemau – Mynediad Rhesymegol a gwahanu Dyletswyddau 1961.14/15 | Dylid anablu hawliau mynediad defnyddwyr yn awtomatig os nad ydynt wedi cael mynediad i'r system rhwydwaith am 3 mis neu gyfnod llai a benderfynir gan TGCh. | 07/10/2014 | 31/03/2015 | Rheolydd Gwasanaethau Technegol | O fewn dyddiad targed | | Gwyrdd |
| 8 | Sicrwydd Trydydd Parti 1736 11/12 | Adolygu a gweithredu argymhellion yn yr Adroddiad Sicrwydd Trydydd Parti 1736. 11/12 | 07/10/2014 | 31/12/2014 | Pennaeth Gwasanaeth – Polisi | Pennaeth Gwasanaeth - Polisi | Pennaeth Gwasaneth wedi ein hysbysu ei fod yn bwriadu trafod gyda'r Rheolwr Rhaglen a Cynllunio Busnes | Green / Amber |
| 9 | Adroddiad Rheoli Risg 1766.11/12 | Adolygu, cydlynu/gweithredu'r Adroddiad Rheoli Risg 1766.11/12 | 07/10/2014 | 31/12/2014 | Rheolydd Risg Yswiriant | Wedi'i ddisodli gan yr ymghynghoriad presennol | | D/B |
| 10 | Fframwaith Partneriaeth 1874.13/14 | Aseinio swyddogion cyfrifol i weithredu argymhellion yr adroddwyd arnynt yn yr adroddiad fframwaith partneriaeth 1874.13/14 gyda dyddiadau cau | 07/10/2014 | 31/12/2014 | Prif Weithredwr | Dyddiad gweithredu newydd – 28 Tachwedd 2015 | Mandad prosiect wedi ei gynhyrchu – 'Adolygiad Partneriaethau' Prosiect i gychwyn Ebrill 2015 – wedi ei raglennu i barhau am saith mis. | Gwyrdd / Ambr |
| 11 | Adroddiad ar Bolisïau | Adolygu a gweithredu'r | 07/10/2014 | 31/12/2014 | Swyddog Monitro | Dyddiad | Gwaith ar bolisiau yn mynd | Gwyrdd |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Corfforaethol 1761.11/12 | adroddiad ar Bolisïau Corfforaethol 1761.11.12 | | | | gweithredu wedi ei newid i 30 Mehefin 2015. | rhagddo – cyfrifoldeb y Swyddog Monitro yn awr. | /Ambr |
| 12 | Rheolaethau System – Mynediad Rhesymegol a gwahanol Dyletswyddau 1961.14/15 | Dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn cadw cofnod o'r holl ddefnyddwyr sy'n dangos eu bod wedi cael mynediad i'r holl bolisïau TGCh allweddol a'u bod wedi eu darllen, eu deall a'u cytuno, gan gynnwys Polisi Diogelwch TGCh (unwaith y cafodd ei gymeradwyo) a'r Polisiau Defnydd Derbyniol. | 07/10/2014 | 31/03/2015 | Rheolydd Rhaglen a Chynllunio Busnes | O fewn y dyddiad targed | | Gwyrdd |
| 13 | Caffael Corfforaethol 1825.12/13 | Sicrhau bod yr holl argymhellion yn yr adroddiad Caffael Corfforaethol 1825.12/13 wedi ei weithredu | 07/10/2014 | 31/12/2014 | Swyddog Caffael | Yn cael ei weithredu | Mae'r Tîm Caffael wedi ei ailstrwythuro a staff newydd wedi eu penodi. Y diweddariad ar y sefyllfa gyfredol ar gyfer y Pwyllgor Archwilio nesaf | Gwyrdd /Amber |
| 14 | Rheolaethau System – mynediad rhesymegol a gwahanu dyletswyddau 1961.14/15 | Dylid cynhyrchu a gweithredu gweithdrefnau ffurfiol ar gyfer hysbysu, awdurdodi, sefydlu a dileu defnyddwyr oddi ar y rhwydwaith. Dylai gweithdrefnau o'r fath gynnwys staff dros dro a chontractwyr, gweithwyr asiantaeth a staff hunan-gyflogedig. Dylid datgan yn glir rôl TGCh, Adnoddau Dynol, Cyflogau a Gwasanaethau yn y broses. | 07/10/2014 | 31/12/2014 | Rheolydd Gwasanaethau Technegol | | Wedi ei gynnwys yn yr adolygiad dilyn i fyny yn Ionawr 2015. | Gwyrdd |
| 15 | Stociau Disel – Depo Gaerwen 2014/15 | Dylid adolygu'r fframwaith rheoli ar gyfer monitro stociau disel yn Nepo Gaerwen. Yn wyneb y tanwydd ychwanegol y mae angen ei ysgrifennu i ffwrdd sydd dros ben yr hyn sy'n ymwneud yn uniongyrchol ar dri digwyddiad rhoddwyd gwybod i'r Heddlu amdanynt. | 11/12/2014 | 31/01/2015 | Rheolydd Fflyd a Gyrwyr | Ymateb gan y Rheolwr Fflyd a Gyrwyr – wedi ei weithredu - | | Gwyrdd |
| 16 | Cynllun Trydydd Sector 1953.14/15 | Adolygu argymhellion ar gyfer y Cynllun Trydydd Sector i'w gymeradwyo | 07/10/2014 | 24/12/2014 | Cyfarwyddwr Cymuned | Cyfarwyddwr Cymunedau | Gweler diweddariad o fewn yr adroddiad hwn. | Green |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 17 | Adolygiad dilyn i fyny ar Gredydwyr 1941.13/14 | Dylid cynhyrchu a dosbarthu cyfarwyddiadau ysgrifenedig ffurfiol yn manylu ar yr holl brosesau a'r gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â thaliadau credydwyr. Dylai'r weithdrefn roi sylw i rolau a chyfrifoldebau gredydwyr canolog a gwasanaethau ar gyfer pob cam yn y gwaith prosesu. | 13/05/2014 | 31/03/2015 | Perfformiad a Chefnogaeth Rheoli | O fewn y dyddiad targed | | Gwyrdd |
| 18 | Y Brif System Gyfrifo 1892.13/14 | Dylai'r Gwasanaethau TGCh ymlaen tuag at drefniadau wrth gefn SAN i SAN ar gyfer y serfiwr Cyllid i leoliad addas oddi ar y safle yn unol â'r argymhellion a wnaed eisoes. Dylai'r Gwasanaethau Cyllid gymryd perchenogaeth o'u systemau a'u data a sicrhau trefniadau wrth gefn priodol ar gyfer ei systemau ariannol a bod y system a'r data'n cael ei hadfer yn rheolaidd. | 13/05/2014 | 31/12/2014 | Rheolydd Parhad Busnes | Dyddiad wedi ei newid i 29/08/2015 | Ymateb gan y Rheolwr Parhad Busnes – wedi mynd i dendr – gwaith yn parhau i ddewis cyflenwr ar ôl sgorio – angen cwestiynnu'r ymgeiswyr. | Gwyrdd / Amber |
| 19 | Cyflogau Athrawon 1969.14/15 | Dylai'r Adain Cyflogau gwblhau gwiriad cynhwysfawr o'r ail bandio pensiwn i sicrhau bod yr holl bandiau pensiwn yn gywir. Dylid cywiro unrhyw fandiau anghywir ac ail-gyfrifo'r cyfraniadau a'u hôl-ddyddio fel sy'n briodol. | 11/12/2014 | 31/01/2015 | Rheolydd Cyfrifeg Dros Dro. | Dyddiad gweithredu wedi ei newid – Mehefin 2015 | I'w ddilyn i fyny fel rhan o Adolygiad y Gyflogres 2014/15 – gwaith yn mynd rhagddo. | Gwyrdd / Ambr |

This page is intentionally left blank

Cyngor Sir Ynys Môn

# ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| **DYDDIAD:** | **23 CHWEFROR 2015** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **DADANSODDIAD ANGHENION BLYNYDDOL & CYNLLUN GWEITHREDOL ARCHWILIO MEWNOL 2015-16** |
| **PWRPAS ADRODDIAD:** | **ER WYBODAETH** |
| **ADRODD GAN:** | **RHEOLWR ARCHWILIO** |
| **GWEITHREDIAD:** | **D/B** |

## 1 Cyflwyniad

Mae Cynlluniau Archwilio Mewnol yn ddogfennau byw a rhaid eu diwygio'n gyson wrth i ni ddatblygu systemau newydd, wrth i'r hen systemau newid yn sylweddol, wrth i'r ddeddfwriaeth newid, wrth i'r amcanion newid ac ar adeg nodi risgiau newydd.

Hefyd mae adnoddau yn cael effaith ar y dadansoddiad o'r angen archwilio bob amser. Os oes llai o adnoddau na'r disgwyl ar gael, bydd hynny'n golygu y bydd rhaid blaenoriaethu ymhellach a gostwng nifer yr adolygiadau neu gwmpas pob archwiliad unigol. Gyda mwy o adnoddau, bydd modd adolygu mwy o feysydd neu roi mwy o sylw i archwiliadau unigol a gynlluniwyd.

Ar amser llunio'r Cynllun Gweithredol Archwilio Mewnol drafft 2015/16, roedd adolygiad o ddarpariaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol i'r Cyngor yn mynd rhagddo. Mae hyn yn golygu nad yw'n bosibl i'r Prif Weithgor Archwilio allu darparu sicrwydd ar ba mor ddigonol yw'r adnoddau archwilio mewnol a fydd ar gael i'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn 2015/16.

## 2 Methodoleg Asesu Anghenion Archwilio

Mabwysiadodd y Cyngor y Safonau Archwilio Mewnol Sector Cyhoeddus yn 2013 a glynwyd wrth y Safonau gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol. Mae safon 2010 yn ymwneud â chynllunio archwilio ac mae'n dweud: *'the chief audit executive must establish risk-based plans to determine the priorities of the internal audit activity, consistent with the organisation's goals'.*

Er mwyn adnabod y meysydd sydd angen archwiliad mewnol, mae'n rhaid i ni ddeall y risgiau sy'n wynebu'r sefydliad. Yr ydym wedi cynnal yr asesiad o anghenion archwilio am 2015/16 gan ddefnyddio'r broses ganlynol:

- Cadarnhau amcanion craidd y sefydliad a'r risgiau allweddol penodol sy'n gysylltiedig â chyflawni'r amcanion hynny drwy adolygu'r Cynllun Corfforaethol 2015 a thrwy drafodaeth gyda rheolwyr y Cyngor.
- Adolygwyd Cofrestr Risg Gorfforaethol y Cyngor a Chofrestri Risg Gwasanaeth mewn perthynas â risgiau oedd wedi eu nodi fel rhai risg Uchel i'r Cyngor
- Defnyddiwyd y wybodaeth a gasglwyd ynglŷn â'r sefydliad o waith archwilio mewnol blaenorol er mwyn dynodi meysydd a fyddai'n cael budd o archwiliad mewnol. Roedd hyn yn cynnwys y farn ar lywodraethiant y Cyngor, rheoli risg a threfniadau rheolaeth fewnol i'w cynnwys yn Adroddiad Blynyddol y Prif Weithgor Archwilio 2014-15.
- Roedd yr Asesiad o Anghenion Archwilio hefyd yn nodi meysydd nad ydynt yn ymddangos fel risgiau blaenoriaeth uchel ond lle gall archwilio mewnol wneud cyfraniad pwysig tuag at sicrwydd, er enghraifft:

  - Gofynion Safonau Archwilio Mewnol Sector Cyhoeddus a Chôd Ymarfer CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol;
  - Gwaith sydd ei angen er mwyn i'r archwiliwr allanol fedru dibynnu ar waith archwilio mewnol ynglŷn â systemau cyllidol craidd yn unol â'r cysyniad o archwilio wedi'i reoli;
  - Meysydd o bryder sy'n cael eu nodi gan reolwyr neu'r Pwyllgor Archwilio;
  - Materion sy'n dechrau amlygu eu hunain; a'r
  - Angen am sicrwydd parhaus ynglŷn ag agweddau allweddol o reoli risg, llywodraethiant a rheolaeth fewnol.

Roedd dogfennau eraill y trowyd atynt wrth ddatblygu'r Cynllun hwn yn cynnwys, ond nid oeddynt wedi'u cyfyngu i: Datganiad Llywodraethu Corfforaethol ar gyfer 2013/14; Archwiliad o Ddatganiadau Cyfrifo PWC, Cynllun Cyflawni Blynyddol, Cynllun Gwella 2014/15; ac ymgynghori gyda'r Archwilwyr Allanol (SAC) PWC a Sgriwtini ar eu cynlluniau gwaith am 2015/16.

Y dull yr ydym yn ei ffafrio o ran rhoi sylw i risgiau yw defnyddio Cofrestr Risg y Cyngor i yrru Cynlluniau Strategol a Gweithredol yr Adain Archwilio Mewnol gan ddefnyddio ein hadnoddau cyfyngedig i ddarparu sicrwydd ar gyfer y risgiau mwyaf i'r Cyngor lle mae modd gwneud hynny a lle mae'n briodol. Byddid yn adrodd wedyn ar sicrwydd yn erbyn risgiau sy'n gyfarwydd i'r Rheolwyr ac aelodau'r Cyngor trwy eu gwybodaeth o risgiau corfforaethol.

Ar amser yr Asesiad Anghenion Archwilio hwn, fel yn y gorffennol, nid oeddem yn credu bod fframwaith rheoli risg y Cyngor wedi datblygu'n ddigonol i fedru mabwysiadu'r opsiwn oedd yn cael ei ffafrio. Er i beth ddefnydd gael ei wneud o'r Gofrestr, roedd hyn wedi ei gyfyngu i nodi'r meysydd tebygol o risg uchel. Felly fe wnaed defnydd ychwanegol o gyfarfodydd gydag uwch reolwyr ac adolygu dogfennau corfforaethol i asesu'r risg ac anghenion archwilio. Roedd y dadansoddiad hefyd yn cynnwys elfen o

wybodaeth archwilio gronnol a phrofiad o weithgareddau'r Cyngor, ei amcanion a'i risgiau.

Mae adolygiad o'r fframwaith Rheoli Risg ac o effeithlonrwydd camau i liniaru risgiau mwyaf y Cyngor wedi ei gynnwys yn y Cynllun Gweithredol ar gyfer Archwilio Mewnol 2015/16.

## 3 Cynllun Gweithredol Blynyddol – Archwilio Mewnol

Mae'r Cynllun Gweithredol bynlynyddol yn cael ei baratoi er mwyn rhoddi i'r Adain Archwilio Mewnol ei rhaglen waith am y flwyddyn. Mae'r Asesiad Anghenion Archwilio yn cael ei adolygu a gofynnir i'r Cyfarwyddwyr, y Penaethiaid Swyddogoaeth a'r Penaethiaid Gwasanaeth nodi pob risg na chafodd sylw'n barod. Defnyddir yr Asesiad diwygiedig o Anghenion Archwilio i sianelu'r adnoddau archwilio mewnol yn uniongyrchol i'r rhannau hynny o'r sefydliad sydd, yn dilyn gwaith asesu, yn peri'r risg fwyaf yng nghyswllt cyflawni amcanion.

Fel rhan o'r broses o ddatblygu Cynllun Gweithredol Archwilio Mewnol 2015/16, rydym wedi cyfarfod gyda'r Dirprwy Brif Weithredwr, y Swyddog Adran 151 Dros Dro ac wedi cysylltu gyda Chyfarwyddwyr Corfforaethol eraill a hefyd gyda Phenaethiaid Gwasanaeth i drafod eu hanghenion. Ymgynghorwyd gyda'r Archwiliwr Allanol a'r Rheolydd Sgriwtini yng nghyswllt Cynllun Gweithredu arfaethedig 2015/16.

Mae'r Cynllun Gweithredu arfaethedig ar gyfer Archwilio Mewnol, fel y gwelir ef yn Atodiad A, yn adlewyrchu canlyniadau arolwg eleni o'r Asesiad Anghenion Archwilio am 2015/16.

## 4 Adnoddau

Fel y dywedwyd uchod, roedd adolygiad o'r ddarpariaeth o'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn mynd rhagddo ar adeg cyflwyno'r adroddiad. Rhagwelir y bydd adroddiad ar wahân ynglŷn â sut a chan bwy y bydd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cael ei ddarparu o 1 Ebrill 2015 yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio gan y Swyddog Adran 151 i'w ystyried a'i gymeradwyo.

Mae nifer y dyddiau archwilwyr a ddyrannwyd ar gyfer cwblhau'r Cynllun Gweithredol 2015/16 wedi ei osod er mwyn darparu targed heriol i'r Gwasanaeth ac mae'n cynrychioli adnodd sy'n caniatáu cynllun wedi ei flaenoriaethu ar draws yr holl Swyddogaethau, Adrannau a Gwasanaethau yn y Cyngor.

**Targedu Adnoddau** - Mae targedu adnoddau cyfyngedig Archwilio Mewnol yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod adnoddau yn cael eu defnyddio lle mae eu hangen fwyaf. Yn hyn o beth, mae Archwilio Mewnol yn defnyddio nifer o ddulliau i helpu rheoli gan gynnwys: ymgynghoriaeth; cydymffurfiaeth; sicrwydd; rheoli risg; llywodraethu; rheolaeth fewnol a gwerth am arian. Er mwyn ychwanegu gwerth gwirioneddol, mae Archwilio Mewnol yn edrych ar y

risgiau allweddol, ffrydiau gwaith a blaenoriaethau'r Cyngor ac yn canolbwyntio ei ymdrechion ar y meysydd hyn.

Fodd bynnag, nid yw hyn ond yn bosib pan fydd gan sefydliad ddulliau rheoli risg cadarn, llywodraethu a fframweithiau rheoli ar waith ac yn gweithredu'n effeithiol. Mae ein gwaith yn y meysydd hyn yn y blynyddoedd diwethaf wedi cofnodi datblygiad parhaus ond mae hefyd wedi nodi ac adrodd ar feysydd sylweddol o wendid yn y prosesau sydd yn dal i gael sylw. Felly, bydd angen i'r adnoddau Archwilio Mewnol cyfyngedig sydd ar gael barhau i gael eu defnyddio i gryfhau'r fframweithiau hyn o ran dyluniad rheolaethau, cydymffurfiaeth a sicrwydd.

Mae Atodiad B yn cynnwys manylion o'r adnodd archwilio mewnol sydd ei angen i gwblhau'r Cynllun Gweithredol ar gyfer 2015/16.

## 5 Ystyriaethau y mae angen i'r Pwyllgor Archwilio roi sylw iddynt

- A yw Cynllun Gweithredol Archwilio Mewnol manwl 2015/16 yn adlewyrchu'r meysydd y mae'r Pwyllgor Archwilio yn ei gredu y dylid delio â hwy fel blaenoriaeth?

- A yw'r lefel o ddyddiau archwiliwr a dderbyniwyd gan y Pwyllgor ac y cytunwyd arnynt, yn briodol o ystyried y lefel y sicrwydd sydd ei angen?

**Rheolwr Archwilio** **Ionawr 2015**

ATODIAD A

# CYNLLUN GWEITHREDOL ARCHWILIO MEWNOL - 2015-16

| Cyf | Gwasanaeth | Teitl | Adnodd | Dyddiau Archwilio a Gynlluniwyd |
|---|---|---|---|---|
| **DIRPRWY BRIF WEITHREDWR** | | | | **850** |
| **CORFFORAETHOL** | | | | |
| 1 | Corfforaethol | Trefniadau Atal Twyll - Cytundeb Lefel Gwasanaeth | Pwyllgor Archwilio AP | 15 |
| 2 | Corfforaethol | Fframwaith Rheoli Risg a'r 5 Risg Uchaf - Strategaeth Risg a Cofrestrau Risg | Risg Corfforaethol | 10 |
| 3 | Corfforaethol | Adolygu Cydymffurfiaeth â Pholisïau Llywodraethu Gwybodaeth; - Contractau DPA Safonol; Rhybuddion Preifatrwydd Teg; Marcio Data/Dosbarthu; Trin Dogfennau Swyddogol Sensitif ac ati | Pennaeth Swyddogaeth (Cyfreithiol) YM31 | 15 |
| 4 | Corfforaethol | Gwerth am Arian – Cytundeb Lefel Gwasanaeth | Risg a Aseswyd gan AM | 15 |
| 5 | Corfforaethol | Asedau a Chyfalaf – Yn cynnwys Prosiect Gweithio Hyblyg | Cais DBW / SM | 15 |
| 6 | Corfforaethol | Fframwaith Diogelu - Cydymffurfio | Risg Corfforaethol YM16 | 15 |
| 7 | Corfforaethol | Gweithdrefn Chwythu'r Chwiban a Trosolwg Corfforaethol | Cais SM | 10 |
| 8 | Corfforaethol | Partneriaethau - Llywodraethu a Pherfformiad | Pwyllgor Archwilio | 15 |
| 9 | Corfforaethol | Trefniadau Staff Asiantaeth a Defnydd – Dilyn i Fyny | Risg a Aseswyd gan AM | 10 |
| 10 | Corfforaethol | Tal Cyfartal | Cais AA | 10 |
| 11 | Corfforaethol | Arfanu Swyddi – goblygiadau | Cais AA | 10 |
| 12 | Corfforaethol | Parhad Busnes – yn cynnwys TCG Cynllunio adfer ar ol trychineb | AM Cylchol | 15 |
| 13 | Corfforaethol | Prosesau PIR - Corfforaethol | Cais DBW | 10 |
| 14 | Corfforaethol | System Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (CRM) - Datblygiad | Dogfen Cyflawni Blynyddol 14-15 | 10 |
| **ADNODDAU DYNOL** | | | | |
| 15 | AD | Trefniadau Adrodd Salwch | Ymgynghori Pennaeth Gwasanaeth | 10 |
| 16 | AD | AD - Gweithredu System Newydd - Ch3-4 | Ymgynghori Pennaeth Gwasanaeth | 10 |
| 17 | AD | Teithio a Chynhaliaeth - | Ymgynghori Pennaeth Gwasanaeth | 10 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **ADNODDAU** | | | | |
| 18 | Cyllid | Cyflogau Athrawon – Dilyn i Fyny | Dilyn i Fyny | 10 |
| 19 | Cyllid | Casglu Arian | Sicrwydd Allanol | 10 |
| 20 | Cyllid | Dyledwyr Mân yn cynnwys perfformiad cyfredol ar hen ddyledion | Sicrwydd Allanol | 10 |
| 21 | Cyllid | Diwylliant talidau cerdyn Safon Diogelu Data Hunan Asesiad – Oriel – CH – Swyddfa ariannol ayb | Cais Rheolwr Refeniw a Budd-dal | 10 |
| 22 | Cyllid | Taliadau Credydwyr | Sicrwydd Allanol | 15 |
| 23 | Cyllid | Cyfriflyfr Ariannol a Cyfatebu Banc | Sicrwydd Allanol | 10 |
| 24 | Cyllid | Budd-daliadau Tai | Sicrwydd Allanol | 20 |
| 25 | Cyllid | Rheoli'r Trysorlys | Sicrwydd Allanol | 10 |
| 26 | Cyllid | Treth Cyngor | Sicrwydd Allanol | 15 |
| 27 | Cyllid | Trethi Cenedlaethol Annomestig | Sicrwydd Allanol | 15 |
| 28 | Cyllid | Cyflogres –yn cynnwys talu rhai nad ydynt yn weithwyr | Sicrwydd Allanol | 15 |
| 29 | Cyllid | Fframwaith Gaffael Gorfforaethol yn cynnwys E-Dendro | Risg Corfforaethol YM40 | 15 |
| 30 | Cyllid | Monitro newidiadau i data safonnol weithwyr | Cais AA | 6 |
| 31 | Cyllid | Pensiynau: Rhanu data sensus gyda Cynllun Pensiwn Gwynedd a cysoni data | Cais AA | 6 |
| 32 | Cyllid | Gosod y Gyllideb a Monitro ar gyfer 2016-17 – Ch 3 | Risg Corfforaethol YM33 | 10 |
| 33 | Cyllid | Amserlen Cau Cyfrifon – Adolygu Proses | Asesiad Risg AM | 10 |
| 34 | Cyllid | Prosesu Arbedion Effeithlonrwydd a Chadernid- Strategaeth Effeithlonrwydd a Chytundeb 2016-17 | Risg Corfforaethol YM8 | 10 |
| 35 | Cyllid | CIVICA – Ymarfer Dadansoddi data - Credydwyr a Dyledwyr | Risg a Aseswyd gan AM | 10 |
| **TECHNOLEG GWYBODAETH A CHYFATHREBU** | | | | |
| 36 | TGCh | Rhwydwaith – Mynediad a Diogelwch - yn cynnwys effeithlonrwydd a diogelwch mynediad o bell | Asesiad Risg AM | 10 |
| 37 | TGCh | Trefniadau Adfer Trychineb | Risg Corfforaethol YM?? | 10 |
| 38 | TGCh | Mynediad o Bell i systemau Corfforaethol – Effeithlonrwydd a Diogelwch | Dogfen Cyflawni Blynyddol 14-15 | 10 |
| 39 | TGCh | Gwasanaethau Awtomatig ac Opsiynau Hunanwasanaeth | Dogfen Cyflawni Blynyddol 14-15 | 10 |
| **DYSGU GYDOL OES** | | | | |
| **DYSGU** | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 40 | Addysg | Ysgol Gynradd 1 | AM Cylchol | 6 |
| 41 | Addysg | Ysgol Gynradd 2 | AM Cylchol | 6 |
| 42 | Addysg | Ysgol Gynradd 3 | AM Cylchol | 6 |
| 43 | Addysg | Ysgol Gynradd 4 | AM Cylchol | 6 |
| 44 | Addysg | Ysgol Gynradd 5 | AM Cylchol | 6 |
| 45 | Addysg | Ysgol Gynradd 6 | AM Cylchol | 6 |
| 46 | Addysg | Ysgol Uwchradd 1 | AM Cylchol | 10 |
| 47 | Addysg | Ysgolion – Dilyn i Fyny Coch a Coch/Amber | Dilyn i Fyny | 10 |
| 48 | Addysg | Adolygiad Thematig Ysgolion | AM Cylchol | 6 |
| 49 | Addysg | Prydau Ysgol Am Ddim | Sicrwydd Allanol | 5 |
| 50 | Hamdden | Adolygu Sefydliad yr Oriel | Cais PG | 10 |
| 51 | Hamdden | Rheoli LLyfrgelloedd a Threftadaeth Ddiwylliannol | Cynllun Corfforaethol 2013-17 | 10 |
| 52 | Addysg | Gweinyddu Grantiau Addysg - ( Grant Teuluoedd a Dechrau Deg Ch1) | Cynllun Busnes Corfforaethol | 10 |
| 53 | Addysg | Trefniadau Rheolaeth Ariannol ysgol | Asesiad Risg AM | 10 |
| 54 | Addysg | Data Oed Darllen – Defnydd Ysgol a Her AALl | Dogfen Cyflawni Blynyddol 14-15 | 10 |
| **CYMUNED** | | | | |
| **GWASANAETHAU TAI** | | | | |
| 55 | Tai | Rhenti Tai | Sicrwydd Allanol | 20 |
| 56 | Tai | BMU – Adroddiad Siecio Stoc | Blynyddol | 6 |
| 57 | Tai | Gweithredu Prosiect CRT – yn cynnwys trefniadau cynllunio a rhagamcanu | Asesiad Risg AM | 15 |
| 58 | Tai | Tai – Gwaith y Codir Amdano | Cais PG | 10 |
| 59 | Tai | Canlyniadau Tai Fforddiadwy | Cynllun Busnes Corfforaethol | 10 |
| **GWASANAETHAU PLANT** | | | | |
| 60 | GC | Cyngor, Gwybodaeth a Chymorth | Cais y Cyfarwyddwr | 15 |
| 61 | GC | Un Pwynt Mynediad ac Atebolrwydd - gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | Cais y Cyfarwyddwr | 15 |
| 62 | GP | Rheoli Achos a Phroses Asesu i Blant – yn cynnwys siecio iechyd | Cynllun Busnes Corfforaethol / Cynllun Gwella 2013-14 | 10 |
| 63 | GP | Gwasanaeth Maethu - Ystod ac argaeledd gofalwyr maeth | Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr 13-15 | 15 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 64 | GC | Swyddogaeth Rhiant Corfforaethol – Cydymffurfiad / Cryfder - Ch 4 | Cais y Cyfarwyddwr | 10 |
| 65 | GC | Casglu Taliad – Teleofal | Cais y Cyfarwyddwr | 15 |
| **GWASANAETHAU OEDOLION** | | | | |
| 66 | Oedolion | Cynllun Tai Gofal Ychwanegol – Ch3 | Cais SM | 15 |
| 67 | Oedolion | Trefniadau a Chanlyniadau'r Bartneriaeth Trydydd Sector | Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr 13-15 | 10 |
| 68 | Oedolion | Trefiadau amdifadedd diogelu rhag colli rhyddid | Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr 13-15 | 10 |
| 69 | Oedolion | Darpariaeth Gofal Cartref | Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr 13-15 | 15 |
| 70 | Oedolion | 'Hyb Gymunedol' – cefnogaeth a gwasanaethau gan gymunedau lleol uwch | Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr 13-15 | 10 |
| 71 | Oedolion | Strategaeth Gomisiynu – Ch 2 | Risg Corfforaethol | 10 |
| 72 | Oedolion | Mesur Performiad ar gyfer Gwasanaeth Oedolion - (Framwaith Ansawdd) | Cais PG | 10 |
| **DATBLYGU CYNALIADWY** | | | | |
| **ADFYWIO ECONOMAIDD A CHYMUNEDOL** | | | | |
| 73 | Economaidd | Ynys Fenter – Cynllunio a Rheoli Cyrchfan | Cynllun Busnes Corfforaethol | 10 |
| 74 | Economaidd | Llefydd Llewyrchus Llawn Addewid Caergybi – Llywodraethiant a Grantiau i Drydydd Partion | Dogfen Cyflawni Blynyddol 14-15 | 15 |
| 75 | Hamdden | System trefnu gweithgareddau Hamdden a taliadau | Dogfen Cyflawni Blynyddol 14-15 | 10 |
| **AMGYLCHEDDOL A THECHNEGOL** | | | | |
| 76 | Trafnidiaeth | Rhybuddion Tâl Dirwy - Sicrwydd Swyddog Cyllid | Sicrwydd Allanol | 5 |
| 77 | Priffyrdd | Caffael a Thalu Cyfleustodau (yn cynnwys BT) | Aseswyd gan AM | 10 |
| **CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD** | | | | |
| 78 | Safonau Masnach | Marchnadoedd - gweinyddu a Incwm | AM Cylchiol | 10 |
| | | = I'w weithredu o fewn yr adnoddau os yw'n bosib | | |

**ON – Mae'r Cynllun ar sail 850 o dyddiadau Archwilio**

**ATODIAD B**

## Adnoddau

### 1 Asesu Lefel yr Adnoddau Angenrheidiol

Rydym wedi defnyddio'n profiad proffesiynol i asesu pa lefel o adnoddau sy'n angenrheidiol i'r gwaith archwilio a nodwyd yn y cylch strategol. Mae lefel yr adnoddau'n dibynnu ar:

- Cymhlethdod y system sy'n ei lle;
- Ffactorau megis nifer y lleoliadau, nifer y trafodion neu amledd y trafodion;
- Y sicrwydd y mae modd ei ddwyn ymlaen o waith archwilio'r flwyddyn cynt;
- Y math o waith archwilio a wneir.
- Y sylfaen sgiliau tebygol o fewn yr awdurdod archwilio fydd ar gael.

### 2 Yr Adnoddau sydd eu Hangen

Mae'r Cynllun Gweithredol yn seiliedig ar **850** o ddyddiau archwiliwr (ac eithrio unrhyw absenoldeb salwch, hyfforddiant, gwaith gweinyddol Pwyllgor Archwilio ac ati) yn cynnwys elfen gymesur o amser Prif Weithgor Archwilio. Bydd angen i'r adnodd gynnwys set sgiliau gwahanol i allu cwblhau Cynllun Gweithredol amrywiol a heriol yn 2015/16.

Oherwydd bod y dull o ddarparu'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cael ei adolygu ar amser llunio'r dadansoddiad anghenion archwilio hwn, ni fu'n bosibl dweud faint o'r dyddiau hyn fydd yn cael eu darparu yn 2015/16 na chan bwy.

### 3 Adnoddau a Neilltuwyd i Adrannau

Mae'r cynllun wedi ei gynllunio er mwyn sicirhau bod adnoddau digonol o ddyddiau archwilio ar gael wedi'u glustnodwyd i holl weithgareddau'r Cyngor. Mae'r dyraniad yn adlewyrchu'r meysydd risg uchel corfforaethol cyfredol a nodwyd o'r Dadansoddiad Anghenion Archwilio yn cynnwys y meysydd risg corfforaethol y manylwyd arnynt yn yr Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2014/15. Felly mae'r ganran uchaf o ddyddiau yn 2015/16 wedi'i drefnu i'w dreulio ar adolygiadau ym meysydd y canol corfforaethol, Cyllid a TGCh. Mae hyn yn adlewyrchu canlyniadau adolygiadau blaenorol ar y meysydd hyn a'r gwendidau corfforaethol parhaol yn y fframweithiau llywodraethu a risg.

### 4 Cydweithredu

Mae Partneriaeth Archwilio Gogledd a Chanolbarth Cymru yn cynnwys y chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru a phedwar sefydliad sector cyhoeddus arall yn bodoli i ganiatáu'r sefydliadau partner weithio yn fwy agos gyda'i gilydd gyda'r nod o gynyddu effeithlonrwydd. Bwriad y Bartneriaeth yw gweithio ar y cyd ar feysydd newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg o ddiddordeb archwilio ac i rannu canlyniadau'r gwaith hwn.

Bydd y Prif Weithgor Archwilio hefyd yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd o Grŵp Prif Archwilwyr Cymru er mwyn trafod materion Cymru gyfan sy'n berthnasol.

# PRAWF BUDD Y CYHOEDD
# PUBLIC INTEREST TEST

**(Teitl yr Adroddiad/Teitle of Report)**

## Contract Rheoli Archwilio Mewnol / Internal Audit Management Contract

<table>
<tr><td colspan="2">Paragraff(au) 14 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972<br><br>Paragraph(s) 14 Schedule 12A Local Government Act 1972<br>[un neu fwy o/one or more of 12,13,14,15,16,17,18,18A,18B,18C]</td></tr>
<tr><td colspan="2">Y PRAWF – THE TEST</td></tr>
<tr><td>Mae yna fudd i’r cyhoedd wrth ddatgelu oherwydd /<br>There is a public interest in disclosure as:-<br><br>Mae’r mater yn ymwneud â gwariant cyhoeddus.<br><br>The matter concerns public expenditure.</td><td>Y budd i’r cyhoedd with beidio datgelu yw /<br>The public interest in not disclosing is:-<br><br>Mae’r mater yn ymwneud â thelerau dyfarnu contract a allai fod yn niweidiol i fuddiannau masnachol yr awdurdod neu gontractwr arfaethedig petai’r telerau’n dod yn hysbys i gwmnïau a fedrai gystadlu.<br><br>The matter covers the terms on which a contract may be awarded and may harm the commercial interests of the authority or a proposed contractor if the terms were to be made known to potential competitors.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Argymhelliad - Mae budd i’r cyhoedd wrth gadw’r eithriad o bwys mwy na/llai na* budd y cyhoedd wrth ddatgelu’r wybodaeth. [* - dilëwch y geiriau amherthnasol]<br><br>Recommendation - The public interest in maintaining the exemption outweighs/does not outweigh* the public interest in disclosing the information. [* - delete as appropriate]</td></tr>
</table>

This page is intentionally left blank